68. Mae llywodraethau ledled y DU wedi darparu cefnogaeth helaeth i hwyluso diwydiant a gyrrwyr i bontio i ZEVs. Mae hyn yn cynnwys dros £7.5 biliwn allan hyd at 2035 i gefnogi teuluoedd, busnesau a'r sector gweithgynhyrchu modur. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi

³⁵ Ystadegau'r Llywodraeth, Mehefin 2026: [Developing faster indicators of transport activity - GOV.UK](#)

³⁶ SMMT, Chwefror 2026: <https://www.smmt.co.uk/evs-power-up-used-car-market-in-three-year-growth-run/>

³⁷ Data mewnol Autotrader wedi ei rannu gyda'r Adran Drafnidiaeth, Ebrill 2026.

³⁸ Autotrader, Mawrth 2026: <https://plc.autotrader.co.uk/news-views/press-releases/sharp-rise-in-ev-interest-on-autotrader-following-middle-east-bombing/>

³⁹ Autotrader, Mai 2026: <https://www.autotrader.co.uk/content/features/electric-cars-facts-and-figures>

⁴⁰ Ymgynghoriad y Llywodraeth, Ebrill 2026: <https://www.gov.uk/government/consultations/updating-the-minimum-emission-standard-for-new-road-vehicles/updating-the-minimum-emission-standard-for-new-road-vehicles>

defnyddio gwefrwyr cerbydau trydan, y defnydd o gerbydau trydan a phontio diwydiant modur y DU.

69. Mae'r Grant Ceir Trydan (ECG) ledled y DU, gwerth £2 biliwn, ac wedi'i ariannu i flwyddyn ariannol 2029/30, eisoes wedi cefnogi dros 160,000 o werthiannau ceir trydan newydd trwy ostwng costau cerbydau trydan newydd. Mae'n lleihau cost ymlaen llaw cerbydau trydan newydd sydd â phris o £37,000 neu lai sy'n bodloni meini prawf cynaliadwyedd penodol. Er y gallai fod llawer o ffactorau'n dylanwadu ar hyn, mae ystadegau'r Adran Drafnidiaeth yn dangos, o gymharu'r 6 mis cyn cyflwyno'r ECG â'r 6 mis wedyn, bod cofrestru cerbydau trydan wedi cynyddu tua 10%.⁴¹
70. Mae'r Grant Faniau Di-allyriadau ledled y DU wedi cefnogi bron i 115,000 o archebion LGV di-allyriadau ers 2012, ac mae'r Grant Tryciau Di-allyriadau wedi cefnogi dros 1,200 o HGVs di-allyriadau ers 2016. Ar 25 Mawrth eleni, ymrwymodd llywodraeth y DU £1 biliwn ychwanegol mewn cyllid ar gyfer faniau a lorïau i gyflymu twf a thorri costau datgarboneiddio cludo nwyddau ar y ffyrdd i fusnesau. Mae'r buddsoddiad hwnnw'n golygu y gall busnesau ledled y DU elwa o hyd at £5,000 oddi ar faniau di-allyriadau, a hyd at £1 miliwn i gefnogi cyflwyno seilwaith gwefru mewn depos.
71. Mae Llywodraeth yr Alban wedi darparu cefnogaeth sylweddol i gyflymu mabwysiadu cerbydau trydan a chael gwared ar rwystrau i'w defnyddio. Rhwng 2011 a 2026, darparodd Benthyciad Trafnidiaeth Carbon Isel yr Alban fwy na £250 miliwn i gefnogi prynu cerbydau allyriadau isel iawn a sero. Mae'r mesurau hyn wedi cyfrannu at nifer fawr o gerbydau trydan yn yr Alban.
72. Mae llywodraeth y DU yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â rhwystrau ehangach i fabwysiadu faniau di-allyriadau. Y llynedd fe wnaethom newid rheoliadau trwyddedu gyrwyr a gweithredwyr faniau yn dilyn adborth gan y diwydiant. Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno newidiadau rheoleiddio pellach i symleiddio profion MOT a rheolau oriau gyrwyr ar gyfer faniau trydan mawr (3.5-4.25 tunnell). Mae'r newidiadau hyn yn hyrwyddo mabwysiadu cerbydau LGV ZE ymhellach.
73. Er mwyn cefnogi hygyrchedd cerbydau trydan, mae'r Grant Cerbydau Hygyrch i Gadair Olwyn yn cynnig £2,500 ar gyfer cerbydau cymwys sydd â phris o £50,000 neu lai i ostwng cost cerbydau trydan sydd wedi'u haddasu'n benodol ar gyfer defnydd cadair olwyn. Mae llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd y grant WAV yn parhau tan fis Mawrth 2027. Mae cerbydau hygyrch hefyd yn elwa o'r credyd bonws mwyaf yn y Mandad ZEV i roi cymhelliant i weithgynhyrchwyr arloesi.
74. Mae pob cerbyd yn cyfrannu at dagfeydd a thraul ar y ffyrdd, ond mae gyrwyr cerbydau petrol a diesel yn talu treth tanwydd wrth y pwmp i gyfrannu eu cyfran deg, tra nad yw gyrwyr cerbydau trydan yn talu cyfwerth ar hyn o bryd. Wrth i fwy o bobl ddewis newid i gerbydau trydan, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi rhagweld y bydd derbyniadau treth tanwydd yn gostwng i tua hanner y lefelau presennol (tua £12 biliwn) yn y 2030au mewn termau real. Yna disgwylir i dderbyniadau agosáu at sero erbyn 2050.

⁴¹ Ystadegau'r Llywodraeth, Ebrill 2026: <https://www.gov.uk/government/statistics/vehicle-licensing-statistics-2025/vehicle-licensing-statistics-united-kingdom-2025>

75. Felly, fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb 2025, bydd Treth Cerbydau Trydan (eVED), tâl milltired newydd ar gyfer ceir trydan a cheir hybrid plygio i mewn, yn dod i rym ym mis Ebrill 2028. Er ei bod yn deg i yrwyr cerbydau trydan gyfrannu at eu defnydd o geir, mae llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gyrru cerbyd trydan yn parhau i fod yn ddewis deniadol i yrwyr. Felly, bydd y gyfradd eVED a delir gan yrwyr cerbydau trydan yn hanner y gyfradd dreth tanwydd a delir gan y gyrrwr petrol/diesel cyffredin, gan sicrhau y bydd yn dal yn rhatach bod yn berchen ar a rhedeg EV i'r rhan fwyaf o yrwyr EV. Bydd cerbyd trydan cyffredin sy'n gyrru 8,000 milltir y flwyddyn yn talu £240, neu £20 y mis, mewn eVED (a dim treth tanwydd) pan ddaw i rym ym mis Ebrill 2028. Mewn cyferbyniad, bydd car petrol/diesel cyffredin sy'n gyrru'r un pellter yn talu tua £480 mewn treth tanwydd.
76. Yn wahanol i rai gwledydd eraill lle gostyngwyd cymhellion prynu cerbydau trydan ochr yn ochr â chyflwyno taliadau milltiroedd i ddisodli treth tanwydd, mae'r DU yn ehangu'r cymhellion hyn ochr yn ochr â cherbydau trydan electronig i annog mwy o ddefnydd. Mae tuag 80% o refeniw eVED o'r tair blynedd gyntaf yn cael ei ail-fuddsoddi i ymestyn cefnogaeth i gerbydau trydan a'r diwydiant gweithgynhyrchu ceir, gan gynnwys £1.3 biliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Ceir Trydan (ECG), £200 miliwn ar gyfer cyflwyno gwefrwyr cerbydau trydan, a chynyddu'r trothwy Atodiad Ceir Drud (ECS) i £50,000 ar gyfer cerbydau trydan.
77. Mae hyn yn adeiladu ar y gefnogaeth hael sydd eisoes yn bodoli i yrwyr a busnesau ddewis cerbydau trydan, gan gynnwys cyfraddau treth ceir cwmni hael a chynlluniau aberthu cyflog. Mae ceir cwmni yn y DU yn ddarostyngedig i gyfundrefn sy'n seiliedig ar allyriadau; nid yw gwerth trethadwy'r car yn seiliedig ar ei bris rhestr yn unig, ond hefyd ar ei lefel allyriadau CO₂. Mae ein system lwfansau cyfalaf ar gyfer ceir hefyd yn seiliedig ar allyriadau CO₂, gyda'r ceir mwyaf llygrol yn derbyn y lwfansau lleiaf hael.
78. Mae rhaglen DRIVE35 (Driving Research and Investment in Vehicles Electrification) gwerth £4 biliwn yn cefnogi arloesi, ehangu masnachol a buddsoddi mewn ZEVs, batris a'u cadwyni cyflenwi hyd at 2035.⁴² Ar agor i fusnesau cofrestredig o bob maint yn y DU, mae'n darparu sicrwydd hirdymor ac yn rhoi'r hyder i'r diwydiant fuddsoddi yn y technolegau a'r galluoedd gweithgynhyrchu sydd eu hangen ar gyfer dyfodol sector modurol y DU.
79. Fel rhan o DRIVE35, mae llywodraeth y DU hefyd yn gweithredu'r Rhaglen Parodrwydd Cyflenwyr a Thrawsnewid mewn partneriaeth â Meiri'r Gogledd-ddwyrain a'r Gorllewin Canolbarth, gyda chefnogaeth hyd at £50 miliwn o gyllid ym mhob rhanbarth. Bydd y rhaglen yn cefnogi trydaneiddio a phontio clystyrau gweithgynhyrchu allweddol, gan gryfhau cadwyni cyflenwi, cynyddu cynnwys domestig, diogelu swyddi a datgloi twf ar draws cymunedau lleol wrth gyflymu'r newid i dechnolegau di-allyriadau.

⁴² Canllawiau'r Llywodraeth, Gorffennaf 2025: <https://www.gov.uk/guidance/drive35-funding-programme-innovation>

Seilwaith gwefru'r DU


80. Mae'r Mandad ZEV yn sbardun allweddol ar gyfer buddsoddi yn y pontio i ZEV y tu allan i'r sector modurrol. Does unman y mae hyn yn gliriach nag yn niwydiant gwefru prysur gynyddol y DU, sydd wedi pwysleisio dro ar ôl tro sut mae'r sicrwydd a ddarperir gan y Mandad wedi datgloi buddsoddiad preifat o £6 biliwn yn eu sector hyd at 2030⁴³, a buddsoddiad cronus posibl o £30 biliwn hyd at 2035.⁴⁴ Mae trywydd y Mandad ZEV yn ffactor arwyddocaol sy'n dylanwadu ar y defnydd o ZEV a'r galw canlyniadol am seilwaith gwefru. Mae'n ffactor pwysig wrth gynnal llif cyfalaf i'r DU, gan gefnogi hyder buddsoddwyr ac annog buddsoddi parhaus yn sector gwefru'r DU.
81. Er nad yw seilwaith gwefru ei hun o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, mae ei hollbwysigrwydd i'r pontio yn amlwg. Mae dros 120,000⁴⁵ o wefrwyr cerbydau trydan cyhoeddus yn y DU eisoes ac mae gan bron i filiwn o gartrefi yn Lloegr bwynt gwefru wedi'i osod. Mae hyn yn cynnwys dros 12,800 o wefrwyr yn yr Alban, 5,900 yng Nghymru a mwy na 1,100 o wefrwyr cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon, gyda'r olaf yn cynyddu tua 195% ers mis Ebrill 2023. O ystyried ei bwysigrwydd, mae llywodraeth y DU yn buddsoddi £600 miliwn hyd at 2030 i gefnogi gwefru yn y DU. Mae hyn ar ben y £400 miliwn a fuddsoddwyd o dan Gronfa Seilwaith Cerbydau Trydan Lleol y disgwylir iddi ddarparu dros 100,000 o bwyntiau gwefru cyhoeddus newydd yn Lloegr.
82. Yng Ngogledd Iwerddon, mae consortiwm o gynghorau lleol ar fin gosod hyd at 250 o bwyntiau gwefru gyda chefnogaeth y Cynllun Pwyntiau Gwefru Preswyl Ar y Stryd. Bydd 'Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Clwb Chwaraeon Ynys a Rennir' Llywodraeth Iwerddon hefyd yn darparu 48 o wefrwyr mewn clybiau chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon, gan ddod â mwy o bwyntiau gwefru i leoliadau cymunedol.

⁴³ ChargeUK, <https://www.chargeuk.org/>

⁴⁴ LCP a ChargeUK, Mehefin 2026:

https://spark.lcp.com/research/document/A678D9?utm_campaign=Economic+impact+of+UK+EV+charging+g+&utm_medium=bitly&utm_source=website

⁴⁵ Ystadegau'r DfT, VEH9902, Gorffennaf 2026: <https://www.gov.uk/government/statistics/developing-faster-indicators-of-transport-activity>



Ffigwr 3. Nifer y gwefrwyrr cerbydau trydan cyhoeddus o fis Ionawr 2025 a dyfeisiau gwefru cyhoeddus o fis Ionawr 2020: Y Deyrnas Unedig.⁴⁶ Mae ystadegau ar gyfer nifer y gwefrwyrr cerbydau trydan yn ddatblygiad diweddar gyda chyfres gefn gyfyngedig. Mae nifer y gwefrwyrr cerbydau trydan yn fwy cynrychioliadol o nifer y cerbydau y gellir eu gwefru ac mae'n fwy cyson ag adrodd rhyngwladol ar wefr cerbydau trydan cyhoeddus.

English	Welsh
Total public EV chargers	Cyfanswm gwefrwyrr EV cyhoeddus
Total public charging devices	Cyfanswm y dyfeisiau gwefru cyhoeddus

83. Mae Llywodraeth yr Alban wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mesurau i gefnogi'r defnydd o gerbydau trydan a datgarboneiddio fflyd. Ers 2013, mae cyllid wedi cefnogi gosod mwy na 23,000 o bwyntiau gwefru mewn cartrefi a gweithleoedd ledled yr Alban, gan gyfrannu at un o'r cyfraddau perchnogaeth cerbydau trydan uchaf yn y DU. Ers 2014, mae mwy na £80 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn pontio fflydoedd y sector cyhoeddus i gerbydau ZEV, gan arwain at dros 6,000 o gerbydau ZEV yn gweithredu ar draws y sector cyhoeddus. Mae cymorth ychwanegol wedi'i ddarparu drwy'r rhaglen Plugged-in Communities, sydd wedi ariannu 55 o sefydliadau trafnidiaeth gymunedol i brynu cerbydau trydan, a thrwy'r Gronfa Seilwaith Cerbydau Trydan gwerth £30 miliwn, sy'n helpu awdurdodau lleol i ehangu seilwaith gwefru cyhoeddus mewn partneriaeth â'r sector preifat, gan gynnwys mewn cymunedau gwledig ac ynysoedd.

84. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r pontio i gerbydau ZEV, sy'n hanfodol i gyflawni ei chyllidebau carbon, drwy fuddsoddi mewn seilwaith gwefru dibynadwy, hygrych a fforddiadwy. Mae mwy na 5,900 o bwyntiau gwefru cyhoeddus bellach ar waith ledled Cymru, gyda ffocws ar fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth, gan gynnwys mewn

⁴⁶ Mae dyfais gwefru yn uned ffisegol mewn lleoliad gwefru sy'n cynnwys offer gwefru. Mae gwefrydd EV yn rhan o ddyfais gwefru a all gyflenwi ynni i un EV ar y tro. Am ragor o wybodaeth gweler <https://www.gov.uk/government/publications/electric-vehicle-charging-device-statistics-information/electric-vehicle-charging-infrastructure-statistics-frequently-asked-questions>

ardaloedd gwledig.⁴⁷ Mae cefnogaeth hefyd yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol i wella mynediad at wefru, archwilio atebion traws-balmant ar gyfer aelwydydd heb rywle i barcio oddi ar y stryd, hyrwyddo clybiau ceir EV, a mentrau fel y rhaglen Symud i Sero, sy'n cyflymu'r defnydd o gerbydau masnachol di-allyriadau. Mae trydaneiddio fflyd y sector cyhoeddus a defnyddio seilwaith gwefru gan Trafnidiaeth Cymru hefyd yn helpu i yrru'r pontio yn ei flaen.

85. Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gefnogaeth bellach ar gyfer seilwaith gwefru, gan gynnwys y Grant Sianel Palmentydd Cerbydau Trydan gwerth £25m. Bydd hyn yn cefnogi miloedd o drigolion yn Lloegr i wefru eu cerbydau gartref am gyfradd rhatach.⁴⁸ Fel rhan o ddull ehangach llywodraeth y DU, rydym yn lleihau biwrocratiaeth o amgylch gosod gwefrwyr er mwyn cyflymu'r broses o'u defnyddio ac wedi cyhoeddi cynnydd yn y symiau grant sydd ar gael ar gyfer gosod gwefrwyr.⁴⁹ Bydd y mesurau hyn yn gwella mynediad at seilwaith gwefru, gan hybu hyder i newid i gerbyd trydan.
86. Yng Ngogledd Iwerddon, cyflwynodd yr Adran Seilwaith ddau ddatrysiad gwefru cerbydau trydan traws-balmant ym mis Medi 2025, i gefnogi trigolion heb fynediad at barcio oddi ar y stryd. Mae'r rhain yn cynnwys sianel beirianyddol barhaol, a osodwyd trwy'r broses Drwydded Gwaith Stryd bresennol, sy'n galluogi defnyddio ceblau gwefru yn ddiogel wrth gynnal mynediad i gerddwyr a chaniatáu i'r llwybr troed gael ei adfer os nad oes ei angen mwyach. Cyflwynwyd datrysiad gorchudd cebl dros dro hefyd trwy raglen beilot dreigl chwe mis i gefnogi monitro a gwerthuso. Datblygwyd y ddau fesur mewn cydweithrediad agos â'r Pwyllgor Cynghori ar Symudedd a Thrafnidiaeth Gynhwysol (IMTAC) a gweithredwyr pwyntiau gwefru.
87. Ym mis Mai 2026, lansiodd Llywodraeth yr Alban y Cynllun Gwefru ar draws Palmentydd, gan gynnig grantiau hyd at £3,500 i gefnogi prynu a gosod atebion gwefru ar draws palmentydd i drigolion heb rywle i barcio oddi ar y stryd. Yn ogystal, mae rheoliadau wedi'u cyflwyno sy'n ei gwneud yn ofynnol i wefrwyr cerbydau trydan gael eu darparu mewn adeiladau a datblygiadau newydd, gan helpu diogelu seilwaith ar gyfer y dyfodol a chefnogi mabwysiadu cerbydau trydan yn barhaus.
88. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn gweithio'n agos gyda'r sector ynni a gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu trydan i wella'r cydgysylltu rhwng defnyddio seilwaith gwefru a'r rhwydwaith trydan, gan sicrhau y gall system ynni'r Alban gefnogi twf parhaus mewn ZEVs.
89. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y gallai costau gwefru uchel fod yn rhwystr i fabwysiadu cerbydau trydan yn eang, yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar rwydweithiau cyhoeddus yn hytrach na gwefru gartref. Mewn ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth y DU adolygiad cynhwysfawr o gostau gwefru cyhoeddus, gan archwilio'r ffactorau sy'n

⁴⁷ Ystadegau'r Llywodraeth, Gorffennaf 2026:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6a4cef874889d85e75ab4120/Monthly_public_EV_chargers_by_region_and_country_UK.ods

⁴⁸ Datganiad i'r wasg, Gorffennaf 2025: <https://www.gov.uk/government/news/new-63-million-boost-for-britains-electric-vehicle-revolution>

⁴⁹ Datganiad i'r Wasg, Chwefror 2026: <https://www.gov.uk/government/news/grant-boost-to-cover-almost-half-the-cost-of-installing-ev-chargers-for-households-and-businesses>

sbarduno cynnydd mewn prisiau a dulliau y gallai llywodraeth a diwydiant y DU eu cymryd i ostwng y costau hyn i yrwyr. Cyhoeddir yr Adolygiad o Gostau Gwefru yn Hydref 2026.⁵⁰

90. Ar gyfer teithiau hirach, mae llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r diwydiant i wneud gwefru'n hawdd, yn gyflym ac yn ddibynadwy. Ar hyn o bryd mae dros 6,400 o wefrwyr cyflym a chyflym iawn mynediad agored o fewn milltir i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN – traffyrdd a phrif ffyrdd A Lloegr).⁵¹ Mae'r farchnad wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae llywodraeth y DU yn targedu cefnogaeth lle mae ei hangen fwyaf, fel gwella'r ddarpariaeth gwefru mewn ardaloedd gwasanaeth traffyrdd lle mae costau cysylltu uchel wedi gwneud cyflwyno seilwaith gwefru yn anhyfyw yn fasnachol. Mae cefnogaeth bellach ar yr SRN hefyd yn cynnwys £10 miliwn o gyllid i ddarparu technoleg arloesol a chefnogi cyflwyno gwefrwyr trwy oresgyn cyfyngiadau grid.
91. Yn ogystal, rydym yn moderneiddio arwyddion gwefru cerbydau trydan ar brif ffyrdd A. Mae'r newidiadau hyn bellach yn caniatáu i ganolfannau gwefru cerbydau trydan mwy gael eu harwyddo, ac mae gwaith ar y gweill i'w gwneud hi'n haws darparu arwyddion ar ffyrdd lleol.
92. O ystyried y galw cynyddol yn y DU am wefrwyr wrth i'r fflyd bontio i drydan, mae'r sector gwefru yn cynrychioli diwydiant twf pwysig dros y degawd nesaf. Mae dadansoddiad a gomisiynwyd gan ChargeUK, cymdeithas fasnach sy'n cynrychioli'r sector gwefru, yn rhagweld y bydd sector gwefru'r DU yn cyfrannu cyfanswm cronus o £15.5bn mewn gwerth uniongyrchol i'r economi erbyn 2035, gan gefnogi tua 36,000 o swyddi uniongyrchol a denu cyfanswm cronus o £30bn o fuddsoddiad i sector gwefru'r DU.⁵² Mae'r swyddi a'r buddsoddiad hyn yn seiliedig ar rwydwaith gwefru sy'n gynyddol fawr ac yn aeddfedu, wedi'i ategu gan werthiannau o'r Mandad ZEV. Mae gan newidiadau i'r Mandad ZEV y potensial i effeithio ar yr amgylchedd buddsoddi ar gyfer seilwaith gwefru.

Teimlad defnyddwyr

93. Mae teimlad defnyddwyr yn rhan hanfodol o'r pontio i ZEV ac mae'r defnydd rhagweladwy o ZEV yn sbardun allweddol ar gyfer twf y farchnad a hyder hirdymor ar draws y sector. Rydym yn gwybod, unwaith y bydd gyrrwyr wedi prynu cerbyd trydan, eu bod nhw'n gadarnhaol iawn am y profiad. Mae Traciwr Ymddygiad ac Agweddau Gyrrwyr EV diweddaraf yr Adran Drafnidiaeth, sy'n mesur agweddau ac ymddygiadau gyrrwyr BEV a PHEV ledled y DU, wedi canfod bod bron i 80% o yrwyr EV wedi dweud y byddent yn fwyaf tebygol o brynu neu brydlesu EV arall yn y dyfodol, a dywedodd bron i 90% eu

⁵⁰ Cylch gorchwyl yr adolygiad costau gwefru cyhoeddus, Mehefin 2026: <https://www.gov.uk/government/publications/cost-of-public-ev-charging-review-terms-of-reference/cost-of-public-ev-charging-review-terms-of-reference>

⁵¹ Dadansoddiad mewnol ZapMap a'r DfT: <https://www.zapmap.com/ev-charging-statistics-2025-report>

⁵² LCP a ChargeUK, Mehefin 2026: <https://www.lcp.com/en/insights/publications/powering-a-decade-of-growth-the-economic-impact-of-uk-ev-charging>

bod yn debygol o argymhell perchnogaeth EV i eraill.⁵³ Mae hyn yn arwydd cryf o ymddiriedaeth mewn cerbydau trydan gan y rhai sydd wedi rhoi cynnig ar un.

94. Fel gydag unrhyw dechnoleg newydd sy'n debygol o chwarae rhan ganolog ym mywydau beunyddiol pobl, mae amgylchedd gwybodaeth cymhleth a dadleuol o amgylch cerbydau trydan, lle gall pryderon dilyn ynghylch materion fel iechyd batri neu ddiogelwch tân batris gael eu gwaethygu gan adroddiadau neu drafodaeth anghywir neu ymfflamychol. Mae'r un Traciwr Ymddygiad ac Agweddau Gyrwyr EV yn dangos mai argaeledd gwefrwyr EV, eu hamrediad, a'r gost i'w prynu yw'r pryderon a ddyfynnir amlaf am gerbydau EV. Mae sylw yn y cyfryngau yn llunio hyder defnyddwyr, gan gynnwys o amgylch cerbydau trydan, ac fe wyddom fod gwerthiannau ZEV i fflydoedd corfforaethol ar hyn o bryd yn gryfach na galw defnyddwyr preifat.
95. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a darparu negeseuon clir a ffeithiol i yrwyr fel y gallant wneud dewis gwybodus am eu cerbyd nesaf. Ym mis Ionawr 2026 lansiodd Llywodraeth y DU ymgyrch gyfryngau bwrpasol⁵⁴ ledled y DU i hybu hyder defnyddwyr ac amlygu manteision newid i gerbyd trydan. Mae'r ymgyrch wedi'i chynllunio i roi cerbydau trydan yn gyntaf oll mewn meddyliau, mynd i'r afael â bylchau gwybodaeth, meithrin ymddiriedaeth a dangos sut y gall cerbydau trydan ffitio i ffordd o fyw pobl. Mae'n tynnu sylw at fanteision perchnogaeth cerbyd trydan gan gynnwys costau rhedeg is, ystod batri, a chyfleustra gwefru, yn ogystal â'r Grant Ceir Trydan.
96. Mae'r ymgyrch yn ateb galwadau gan y diwydiant a Phwyllgor Amgylchedd a Newid Hinsawdd (CCC) Tŷ'r Arglwyddi i'r Llywodraeth gymryd rhan fwy rhagweithiol wrth gyfleu gweledigaeth gadarnhaol o'r pontio i gerbydau trydan i ddefnyddwyr. Mae'r ymgyrch hon yn cyd-fynd â chyfathrebu parhaus ar draws sianeli cost isel a dim cost, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Mae'r CCC wedi datgan y gallai gwanhau ymhellach ar y Mandad ZEV roi targedau newid hinsawdd y Llywodraeth mewn perygl, tanseilio hyder buddsoddwyr, cynyddu dibyniaeth ar olew a fewnforir, a gadael mwy o aelwydydd yn agored i gostau rhedeg uwch cerbydau petrol a diesel.⁵⁵
97. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU wedi lansio adolygiad cynhwysfawr o gostau gwefru cyhoeddus. Mae hyn yn archwilio'r ffactorau sy'n sbarduno cynnydd mewn prisiau a'r dulliau y gallai Llywodraeth a diwydiant y DU eu cymryd i ostwng y costau hyn i yrwyr. Gwyddom fod seilwaith gwefru cyhoeddus effeithiol, hygyrch a fforddiadwy yn hanfodol i gefnogi'r rhai a fydd yn dibynnu ar y rhwydwaith gwefru cyhoeddus.

⁵³ Traciwr Gyrwyr EV, Canfyddiadau Blwyddyn 1, Awst 2025:


<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/68aee8ae960e2d135b4c8e83/ev-driver-tracker.pdf>

⁵⁴ Clean Energy Campaign, [https://cleanenergy.campaign.gov.uk/electric-](https://cleanenergy.campaign.gov.uk/electric-vehicle/?utm_campaign=cleanenergy&utm_medium=website&utm_source=homepage&utm_content=evexplore#cost)

[vehicle/?utm_campaign=cleanenergy&utm_medium=website&utm_source=homepage&utm_content=evexplore#cost](https://cleanenergy.campaign.gov.uk/electric-vehicle/?utm_campaign=cleanenergy&utm_medium=website&utm_source=homepage&utm_content=evexplore#cost)

⁵⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2026/06/Progress-in-reducing-emissions-2026-report-to-Parliament-4789075r42yrdoubcy2dgh012hdcu-ueb782939edih2e.pdf>

Arbedion carbon



Ffigwr 4. Rhagolwg o'r arbedion carbon a gyflawnir gan y Mandad ZEV cyfredol a rheoliadau CO₂ yng nghyfnod y gyllideb carbon yn y dyfodol, gan gynnwys arbedion o ddileu pob cerbyd ICE yn raddol yn 2035, yn erbyn y defnydd o ZEV a ragwelir ac effeithlonrwydd cerbydau yn y llinell sylfaen.

English	Welsh
Car	Car
Van	Fan
Forecast average annual emission saving (CO ₂ e)	Rhagolwg o arbedion allyriadau blyneddol cyfartalog (CO ₂ e)
Car + Van	Car + Fan
CB5 - 2028 to 2032	CB5 - 2028 i 2032
CB6 - 2033 to 2037	CB6 - 2033 i 2037
CB7 - 2038 to 2042	CB7 - 2038 i 2042
UK Government Carbon Budget Period	Cyfnod Cyllideb Carbon Llywodraeth y DU

98. Mae'r Mandad ZEV yn fecanwaith allweddol i gefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth ffyrdd y DU ac felly'n rhan hanfodol o gyrraedd sero net y DU erbyn 2050 ac i lywodraethau datganoledig gyrraedd eu targedau.
99. Wrth ystyried y gwelliannau deddfwriaethol a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2026, a'r broses o ddileu cerbydau â pheiriant hylosgi mewol (ICE) o 2035 ymlaen (nad yw wedi'i ddeddfu ar hyn o bryd), amcangyfrifir y bydd y Mandad ZEV yn arbed cyfartaledd o 21 MtCO₂e y flwyddyn ar draws Cyllideb Carbon 6 (CB6, 2033 i 2037).⁵⁶

⁵⁶ Yn ogystal â chyllidebau carbon cyfreithiol-rwymol y DU, mae'r llywodraethau datganoledig yn gweithredu eu fframweithiau hinsawdd a'u trefniadau cyllidebu carbon eu hunain. Mae'r rhain yn wahanol o ran uchelgais, dyddiadau targed a'r cyfnodau a gwmpeisir gan gyllidebau carbon unigol.

100. Yn y Gyllideb Carbon ddeddfwriaethol ddiweddaraf, 7, sy'n rhedeg o 2038 i 2042, rhagwelir y bydd yn arbed tua 33MtCO₂e yn flynyddol.⁵⁷

⁵⁷ Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar arbedion a gyhoeddwyd yn y Dadansoddiad Cost-budd Ymateb Cyd-lywodraethol ar y Mandad Cerbydau Di-allyriadau a'r Rheoliadau CO₂, 2023 – <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6554be55544aea000dfb2d59/zev-mandate-consultation-final-cost-benefit-analysis.pdf> ynghyd ag ychwanegiad yr arbedion a amcangyfrifir o ddileu cerbydau ICE yn raddol o 2035, fel y'u cyhoeddwyd yn y Gyllideb Carbon a'r Cynllun Cyflawni Twf, 2025 - <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6901d0c2a6048928d3fc2b55/carbon-budget-and-growth-delivery-plan-report.pdf>. Mae gwelliannau i'r mandad sydd wedi lleihau arbedion wedi'u manylu yn y Rheoliadau Mandad Cerbydau Di-allyriadau a CO₂ – Diweddariadau Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau - Dadansoddiad Cost a Budd - https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2025/1101/pdfs/uksiod_20251101_en_001.pdf. Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn cynrychioli modelu diweddaraf yr Adran Drafnidiaeth o gydymffurfiaeth gwneuthurwyr â'r rheoliad fel y manylir yn Atodiad A: Dull o gydymffurfio â'r Mandad ZEV a modelu carbon.

Rhan 2: Materion sy'n dod i'r amlwg

Cyd-destun sy'n esblygu

101. Pan gyflwynwyd y Mandad ZEV, bu twf cryf mewn gwerthiannau cerbydau trydan yn y DU, gydag arwyddion y byddai twf yn y galw yn parhau'n gyson. Roedd nifer o wneuthurwyr ceir mawr eisoes wedi ymrwymo'n gyhoeddus i 100% o'u gwerthiannau yn y DU fod yn ddi-allyriadau erbyn 2030. Dangosodd dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth ar y pryd fod yr ymrwymadau hyn yn cwmpasu dros 60% o farchnad cerbydau newydd y DU yn 2020.⁵⁸
102. Roedd y darlun rhyngwladol hefyd yn wahanol, gyda fframweithiau rheoleiddio yn yr Unol Daleithiau, Canada a Tsieina a oedd wedi sbarduno argaeledd a defnydd ZEV. Roedd gan yr UE safonau allyriadau CO₂ tebyg, a oedd yn gweithredu targed lleihau 100% ar gyfer ceir a faniau newydd erbyn 2035. Cynlluniwyd y Mandad ZEV yng nghydstun y fframweithiau hyn, i fod ymhlith y cyfundrefnau rheoleiddio mwyaf uchelgeisiol yn fyd-eang.
103. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, mae'r cyd-destun y mae'r farchnad yn gweithredu ynddo wedi dod yn fwyfwy ansicr o ystyried amrywiaeth o bwysau byd-eang a domestig, gan gynnwys y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, prisiau tanwydd ac ynni sy'n codi, dynameg masnach sy'n esblygu a phwysau parhaus o ran costau byw. Mae'r ffactorau hyn wedi cyflwyno ansefydlogrwydd sylweddol i'r farchnad, gan effeithio ar gadwyni cyflenwi a chostau cynhyrchu, ac effeithio'n uniongyrchol ar hyder defnyddwyr.
104. Ochr yn ochr â hynny, mae'r rhagolygon hyd at 2030, gan gynnwys fframweithiau rheoleiddio mewn marchnadoedd allweddol eraill, wedi newid. O ystyried bod y sector modur yn gweithredu'n rhyngwladol, mae gan y datblygiadau hyn oblygiadau ar gyfer strategaethau gwerthu a phontio ledled y byd, hyd yn oed wrth i farchnad cerbydau trydan barhau i ddatblygu'n gyflym. Mae'r cyd-destun esblygol hwn wedi llywio adolygiad Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig o'r Mandad ZEV.


⁵⁸ Ymgynghoriad y llywodraeth, Ebrill 2022: [technical-consultation-on-zero-emission-vehicle-Mandate-policy-design.pdf](#)

Galw am ZEV

105. Mae'r galw am ZEVs wedi tyfu'n arafach nag a ragwelwyd. Yn wreiddiol, rhagwelodd dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth y byddai gwerthiannau ceir ZE yn ystod blwyddyn gyntaf y Mandad yn 22% yn 2024, gyda thaith y ceir yn dilyn cromlin twf siâp S, gyda chymeriad cychwynnol arafach ac yna twf cyflym.
106. Mae galw arafach nag a ragwelwyd am ZEV yn eistedd ochr yn ochr â ffactorau ehangach sy'n effeithio ar sector modur y DU, gan gynnwys costau ynni a llafur cymharol uchel yn y DU, tariffau a rhwystrau masnach, risgiau'r gadwyn gyflenwi, ac ansicrwydd ynghylch datblygiadau rheoleiddio yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys pryderon ynghylch mesurau 'Gwnaed yn Ewrop' arfaethedig yr UE, a allai, er nad ydynt wedi'u deddfu eto, gael effaith andwyol ar sector modur y DU pe bai'r DU yn cael ei heithrio. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn wedi creu amgylchedd gweithredu mwy heriol, gan effeithio ar gystadleurwydd a hyder ar draws y diwydiant.
107. Er bod gwerthiannau ceir ZE yn cynyddu'n gyson, gyda 19.8% o gerbydau ZEV wedi'u cofrestru ym mlwyddyn cynllun 2024, 23.3% yn 2025 yn seiliedig ar ddata cydymffurfio dros dro, a hyd at 29.1% ym mis Mehefin 2026⁵⁹, mae cyfran y farchnad yn parhau i fod islaw'r lefelau a ragwelwyd gan brif dargedau y Mandad ZEV. Mae'r sefyllfa hon yn fwy amlwg ar gyfer faniau, a gofrestrodd werthiannau ZEV o 6.8% ym mlwyddyn y cynllun 2024, 9.7% yn 2025 yn seiliedig ar ddata cydymffurfio dros dro ac 11.3% ym mis Mehefin 2026⁶⁰ yn erbyn prif dargedau o 10%, 16% a 24% yn y drefn honno. Nid yw hyn yn cyfateb i'r cynnydd cyflym yng nghyflenwad faniau ZE a dybiwyd yn y trywydd cychwynnol.


⁵⁹ Yn seiliedig ar ddata dangosydd cyflymach yr Adran Drafnidiaeth, sy'n cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gerbydau sydd newydd eu cofrestru gyda math o gorff car, a all fod yn wahanol i nifer y cerbydau a gofnodwyd trwy'r cynllun VETS.

⁶⁰ Yn seiliedig ar ddata dangosydd cyflymach yr Adran Drafnidiaeth sy'n cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gerbydau sydd newydd eu cofrestru gyda math o gorff car, a all fod yn wahanol i nifer y cerbydau a gofnodwyd trwy'r cynllun VETS. Mae ffigurau blaenorol yn defnyddio'r rhai sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth VETS, gweler gwybodaeth gydymffurfiaeth derfynol cynllun masnachu VETS: <https://www.gov.uk/government/publications/vehicle-emissions-trading-schemes-vets-final-compliance-information-2024>; a Datblygu dangosyddion cyflymach o weithgarwch trafnidiaeth, <https://www.gov.uk/government/statistics/developing-faster-indicators-of-transport-activity>.



Ffigwr 5. Nifer y ceir di-allyriadau sydd wedi'u cofrestru yn y DU a chyfran y cofrestrïadau newydd. *Cyn cyflwyno VETS, mae'r data hwn yn seiliedig ar DfT VEH1153 ac mae'n seiliedig ar gerbydau â math o gorff a restrir fel car. Yn dilyn cyflwyno VETS, mae'r data'n seiliedig ar gerbydau newydd sydd wedi'u cofrestru yn gronfa ddata VETS, ac wedi'u cymeradwyo o ran math fel "M1" yn unol ag Erthygl 3 o'r gorchymyn.

English	Welsh
Number of zero emission cars registered in the UK	Nifer y ceir di-allyriadau sydd wedi'u cofrestru yn y DU
Share of new sales showing in %	Cyfran o werthiannau newydd yn dangos mewn %
Number of ZEVs registered	Nifer y cerbydau ZEV cofrestredig
Introduction of VETS	Cyflwyno VETS



Ffigwr 6. Nifer y faniau di-allyriadau sydd wedi'u cofrestru yn y DU a chyfran y cofrestrïadau newydd. *Cyn cyflwyno VETS, mae'r data hwn yn seiliedig ar DfT VEH1153 ac mae'n seiliedig ar gerbydau â math o gorff a restrir fel fan. Yn dilyn cyflwyno VETS, mae'r data'n seiliedig ar gerbydau newydd sydd wedi'u cofrestru yn gronfa ddata VETS, ac wedi'u cymeradwyo o ran math fel "N1 neu N2" yn unol ag Erthygl 3 o'r gorchymyn.

English	Welsh
Number of zero emission vans registered in the UK	Nifer y faniau di-allyriadau sydd wedi'u cofrestru yn y DU
Share of new sales showing in %	Cyfran o werthiannau newydd yn dangos mewn %
Number of ZEVs registered	Nifer y cerbydau ZEV cofrestredig
Introduction of VETS	Cyflwyno VETS

108. Mae'r bwlch hwn yn adlewyrchu'r rhesymeg dros, ac yn cael ei alluogi gan, estyniad hyblygrwydd Mandad ZEV a oedd wedi'i gynnwys yn wreiddiol yn y rheoliad, a chyflwyno hyblygrwydd newydd. Er mai dim ond yn ystod y cyfnod pontio y bwriadwyd i rai elfennau hyblygrwydd fod ar gael, estynnwyd y rhain i gydnabod y nifer is nag a ragwelwyd yn eu defnyddio. Maent wedi galluogi'r farchnad i gydymffurfio â'r rheoliad a lleihau allyriadau carbon, gan ddarparu llai o ZEVs nag sy'n ofynnol gan y prif darged. Am ragor o wybodaeth, gweler 3B. Hyblygrwydd yn y Mandad ZEV.
109. Yn unol â chromlin fabwysiadu technoleg siâp S nodweddiadol o gyflwyno i'r farchnad i bontio llawn, mae llwybrau'r Mandad ZEV yn mynd i mewn i'r rhan fwyaf serth o'r gromlin hon rhwng 2027 a 2030, gyda thargedau'n cynyddu 14 pwynt canran y flwyddyn ar gyfer ceir o 2028 i 2030 a 12 pwynt canran ar gyfer faniau, o'i gymharu â chynnydd cyfartalog o 5 ac 8 pwynt canran y flwyddyn ar gyfer ceir a faniau o 2024 i 2027.
110. Mae'r Mandad ZEV yn gosod targedau ar gyfer cyfran gwerthiannau gwneuthurwr y mae'n rhaid iddynt fod yn ZEVs, yn hytrach na rhagnodi cyfanswm y cerbydau i'w gwerthu. Mae'r cynnydd yn nifer y ZEVs a werthir i gyrraedd y targedau yn dibynnu ar y cydbwysedd rhwng gwerthiannau ZEV a'r hyblygrwydd a ddefnyddir. Mae modelu'r Adran Drafnidiaeth yn amcangyfrif y gallai fod angen cynyddu nifer y ceir ZEV a werthir, a fynegir fel canran o newid yn erbyn y flwyddyn flaenorol, 31% ar gyfartaledd y flwyddyn rhwng 2025 a 2030 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth erbyn 2030. Yn unol â'r rheoliadau presennol, mae hyn yn tybio na fydd hyblygrwydd y mandad yn cael ei ddefnyddio yn 2030, sy'n caniatáu i weithgynhyrchwyr gyrraedd y prif dargedau trwy gyfuniad o hyblygrwydd cydymffurfio, gwerthiannau a masnachu ZEV. Mae cynnydd o 31% yn uwch na'r twf blynyddol cyfartalog mewn gwerthiant ceir trydan rhwng 2022 a 2025 (21% y flwyddyn) ond mae'n is na'r twf blynyddol cyfartalog mewn gwerthiannau yn ystod blynyddoedd cynnar y cyfnod pontio rhwng 2018 a 2022 (100% y flwyddyn).
111. Ar gyfer faniau ZE, mae modelu'r Adran Drafnidiaeth yn amcangyfrif y byddai angen i werthiannau gynyddu 52% y flwyddyn ar gyfartaledd o 2025 i 2030, o'i gymharu â chynnydd blynyddol cyfartalog mewn gwerthiannau o 18% ar draws 2022 i 2025. Fel gyda cheir uchod, mae hyn yn tybio na fydd hyblygrwydd y mandad yn cael ei ddefnyddio yn 2030 sy'n caniatáu i weithgynhyrchwyr gyrraedd y prif dargedau trwy gyfuniad o hyblygrwydd cydymffurfio, gwerthiannau a masnachu ZEV.
112. Mae nifer gyfyngedig o ragolygon annibynnol ar gael o ran nifer y cerbydau trydan yn y DU. Fodd bynnag, lle mae'r rhain yn bodoli, maent yn awgrymu bod targed Mandad ZEV 2030 o dan y rheoliad presennol yn debygol o fod uwchlaw'r hyn y gallai'r farchnad ei gyflawni'n gyfforddus, heb wneud addasiadau i gydymffurfio. Er enghraifft, mae BNEF

wedi rhagweld yn ddiweddar y byddai 67% o werthiannau ceir y DU yn rhai plygio-i-mewn erbyn 2030 (gan gynnwys BEV a PHEV - ond gyda'r mwyaf yn BEV)⁶¹.

113. Mae'r UE yn rheoleiddio gwerthiannau ceir teithwyr a faniau newydd drwy safonau allyriadau CO₂ cyfartalog y fflyd yn hytrach na gofynion ar gyfer cyfran benodol o werthiannau ZEV, felly er nad yw'n gymharol yn uniongyrchol, mae dadansoddiad a gymerwyd o Asesiad Effaith yr UE ar welliannau arfaethedig i'w reoliadau allyriadau CO₂ yn awgrymu, o dan y rheoliadau presennol, y byddai gweithgynhyrchwyr yn cyrraedd cyfran gwerthiannau ZEV o 60% yn 2030. O dan eu gwelliannau arfaethedig, mae'r UE yn amcangyfrif y byddai gwerthiannau ZEV yn cyrraedd 56-58% erbyn 2030 - er nad yw'r Asesiad Effaith yn modelu'r hyblygrwydd yn llawn yn 2030 (megis y gallu i gyfartaleddu arbedion allyriadau ar draws 2030-32), felly gallai gweithgynhyrchwyr fodloni cyfrannau ZEV is yn y flwyddyn hon. Nid yw'r gwelliannau arfaethedig wedi'u cytuno mewn deddfwriaeth eto.⁶²
114. Gyda'i gilydd, mae dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth a rhagolygon annibynnol ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd gwerthiannau ZEV yn 2030 islaw'r prif darged o 80% ar gyfer ceir a'r targed o 70% ar gyfer faniau yn y Mandad ZEV. Er ei bod hi'n bwysig bod targedau'r Mandad ZEV yn uchelgeisiol, rhaid iddynt hefyd fod yn realistig er mwyn sicrhau bod y pontio i ZEV yn parhau i fod yn gyraeddadwy a bod costau cydymffurfio yn fforddiadwy. Ar hyn o bryd, mae risg bod y bwlch rhwng gwerthiannau ZEV a thargedau'r Mandad yn dod yn fwyfwy anodd i'w gau, hyd yn oed gyda defnyddio'r hyblygrwydd presennol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y farchnad faniau, lle mae'r bwlch rhwng gwerthiannau a thargedau ZEV yn fwy, ac mae rhwystrau technegol a gweithredol i'w derbyn yn parhau.
115. Felly, er mwyn sicrhau bod y Mandad ZEV yn parhau i fod yn addas at y diben, mae angen ystyried yn ofalus y gallu i'w gyflawni ac amodau'r farchnad ehangach, gan gydbwysu uchelgais ag ymarferoldeb, amddiffyn buddsoddiad a gynlluniwyd, a chynnal momentwm tuag at fabwysiadu cerbydau trydan.

Costau Cydymffurfio

116. Fel sy'n nodweddiadol gyda rheoleiddio modurol, megis rheoliadau ynghylch diogelwch neu lygryddion eraill, mae gweithgynhyrchwyr yn ysgwyddo costau i gydymffurfio â'r Mandad ZEV. Mae costau cydymffurfio yn codi mewn gwahanol ffyrdd ac yn cynnwys y costau ychwanegol o ddisgowntio ZEVs i ddefnyddwyr neu brynwyr fflyd (mae disgowntiau ZEV fel arfer yn uwch ar gyfer cerbydau newydd), a'r angen posibl i rai gweithgynhyrchwyr brynu credydau ZEV i gefnogi cydymffurfiaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Fel gyda phob rheoliad, mae'n bwysig sicrhau bod modd cydymffurfio ac nad

⁶¹ Electriva, BNEF Forecast: Global Electric Car Market to Grow by Eleven Per Cent in 2026, Mehefin 2026, <https://www.electriva.com/2026/06/17/bnef-forecast-global-electric-car-market-to-grow-by-eleven-per-cent-in-2026/>

⁶² Comisiwn Ewropeaidd, Cynnig ar gyfer Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diwygio Rheoliad (EU) 2019/631 ynghylch safonau perfformiad allyriadau CO₂ ar gyfer cerbydau dyletswydd ysgafn newydd a labelu cerbydau ac yn diddymu Cyfarwydddeb 1999/94/EC, Rhagfyr 2025: https://eur-lex.europa.eu/resource.html?uri=cellar:a9bf8353-db5c-11f0-8da2-01aa75ed71a1.0001.02/DOC_1&format=PDF

yw costau cydymffurfio mor ddifrifol fel eu bod yn achosi canlyniadau negyddol anfwriadol.

117. Gan ddefnyddio data o'r Mandad ZEV rydym yn amcangyfrif bod cost gyfartalog masnachu lwfansau ZEV i fodloni cydymffurfiaeth yn y DU yn 2024 tua £4,000 fesul lwfans ZEV a fasnachir ar gyfer ceir. Rydym hefyd wedi amcangyfrif bod y gost ychwanegol gyfartalog o ostyngiadau ar gyfer cerbydau ZEV tua £2,800 y cerbyd yn 2025⁶³. Mae'r costau hyn yn sylweddol ac yn dynodi her o ran faint ymhellach y gall gweithgynhyrchwyr ysgogi galw ychwanegol i gyrraedd targedau cynyddol.⁶⁴ Mae hyn wedi arwain at gostau is i yrwyr cerbydau trydan newydd, er ei fod hefyd yn arddangos cost cydymffurfio gweithgynhyrchwyr hyd yn hyn.

Cerbydau Trydan Hybrid Plygio i Mewn (PHEVs)

118. O fewn marchnad fodur y DU, mae dynameg ychwanegol wedi dechrau dod i'r amlwg a nodweddir gan gyflymiad yn y defnydd o gerbydau trydan hybrid plygio i mewn (PHEVs). Er bod disgwyl erioed i PHEVs chwarae rhan dros dro yn y symudiad tuag at gerbydau ZEV, mae datblygiadau diweddar yn y farchnad yn awgrymu eu bod yn dod yn nodwedd fwy amlwg o strategaethau cydymffurfio gweithgynhyrchwyr nag a ddisgwyliwyd. Mae'r duedd hon yn adlewyrchu dewisiadau defnyddwyr, proffidioldeb cymharol, a'r cymhellion penodol sydd wedi'u hymgorffori yn y Gorchymyn VETS.
119. Mae gan PHEVs fatri y gellir ei blygio i mewn, modur trydan i ddarparu milltiroedd di-allyriadau parhaus ac injan betrol neu ddiesel gonfensiynol i bweru'r cerbyd. Gallant chwarae rhan yn y pontio i ZEV drwy ymgyswrtu defnyddwyr â seilwaith gyrru a gwefru trydan.
120. Yn ddamcaniaethol, gall PHEVs ddarparu arbedion allyriadau sylweddol oherwydd bod y rhan fwyaf o deithiau'n fyr a gellir eu cwblhau gan ddefnyddio'r batri yn unig. Cyfrifir allyriadau CO₂ swyddogol ar gyfer PHEVs gan ddefnyddio'r Weithdrefn Brawf Cerbydau Ysgafn Wedi'i Gysoni Byd-eang (WLTP). Mae'r WLTP yn dibynnu ar 'ffactor defnydd' (UF), sy'n tybio faint o yrru sy'n cael ei wneud mewn modd trydan o'i gymharu â defnyddio'r injan hylosgi mewnol. Mae'r system bresennol yn tybio y treulir y rhan fwyaf o amser gweithredu cerbyd mewn modd trydan. Mae hyn wedi golygu bod amcangyfrifon swyddogol wedi tybio ffactor defnydd uchel, ac o ganlyniad mae sgoriau allyriadau CO₂ ar gyfer PHEVs wedi bod yn isel, yn yr ystod o 9 i 70g/CO₂/km gyda'r cyfartaledd yn 2025 tua 22g/CO₂/km⁶⁵.
121. Mae tystiolaeth yn dangos bod yr UF yn goramcangyfrif gyrru trydan yn sylweddol, gan fod llawer o yrwyr yn gwefru'n anaml mewn bywyd go iawn, sy'n golygu bod

⁶³ Dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth. Amcangyfrifwyd hyn drwy amcangyfrif y ganran ychwanegol o ostyngiadau ar gerbydau trydan (y gostyngiad canrannol ar gyfer cerbyd trydan llai'r gostyngiad canrannol ar gyfer petrol/diesel). Cafodd y disgownt ychwanegol hwn ei luosi â chost cerbyd trydan. Gwnaed amcangyfrifon ar wahân ar gyfer cerbydau preifat a fflyd.


⁶⁴ Dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth, yn seiliedig ar VETS, a data masnachol a ddarperir gan fflydoedd a thrydydd partïon.

⁶⁵ Y ffigurau isaf ac uchaf yw cyfartaleddau'r pum PHEV isaf ac uchaf yn ôl allyriadau ar lefel model, wedi'u pwysoli yn ôl gwerthiannau. Ffynhonnell: Dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth o ddata DLVA.

allyriadau CO₂ yn y byd go iawn yn uwch na'r ffigurau swyddogol. Mae hyn wedi arwain at fwlch perfformiad sylweddol rhwng allyriadau CO₂ cymeradwyo math ac allyriadau PHEVs yn y byd go iawn. Yn y DU, amcangyfrifwyd bod allyriadau CO₂ PHEV yn y byd go iawn tua 3 i 7 gwaith yn uwch na gwerthoedd WLTP.

122. Dylid nodi, o ran allyriadau yn y byd go iawn, fod ceir PHEV a gofrestrwyd fel rhai newydd yn 2025 yn dal i fod tua 40% yn lanach na'r injan hylosgi mewnol (ICE) neu'r car trydan hybrid (HEV) cyffredin. Fodd bynnag, mae'r drefn brofi bresennol yn tanamcangyfrif eu hallyriadau.

123. I fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn ar lefel Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE), diweddarwyd y safon UF yn 2025 o dan safon cymeradwyo math allyriadau Ewro 6e (Ewro 6e-bis) i adlewyrchu perfformiad CO₂ byd go iawn PHEV yn well. Mae diweddariad arall (Euro 6e-bis-FCM) wedi'i gynllunio ar gyfer 2027 a fydd yn cynyddu ffigurau allyriadau CO₂ swyddogol PHEV ymhellach, gan eu gwneud yn unol i raddau helaeth ag allyriadau byd go iawn amcangyfrifedig. Yn 2026, mae Prydain Fawr yn parhau i fod ar safon allyriadau gofynnol Ewro 6d gyda'r UF uwch 'hen', sy'n arwain at amcangyfrifon allyriadau is. Fodd bynnag, mae Gogledd Iwerddon ar safon allyriadau gofynnol Ewro 6e-bis yn rhinwedd Fframwaith Windsor. Mae llwybr cymeradwyo math UNECE hefyd yn unol â safon Ewro 6e-bis.



Ffigwr 7. Ffactor llusoi ar gyfer PHEVs i addasu gwerthoedd CO₂ cyfredol o dan fandad ZEV (Euro 6d) i adlewyrchu tystiolaeth ar ddefnydd PHEV yn y byd go iawn (6e-bis-FCM). Tybir bod gwerthoedd 6e-bis-FCM fwy neu lai yn hafal i werthoedd y byd go iawn, gan ddangos y bwch allyriadau byd go iawn sy'n tyfu.⁶⁶

⁶⁶ Dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth o ddata cerbydau hybrid plygio i mewn a gofnodwyd drwy gynllun masnachu VETS, ynghyd â data ar yr ystod sy'n disbyddu gwefr a gafwyd o gronfa ddata EV, a methodoleg ar gyfer cyfrifo ffactor defnydd o dan SAE J8241 / GTR y Cenhedloedd Unedig / Rheoliad Comisiwn yr UE (EU) 2017/1151 - Is-Atodiad 8 - Atodiad 5 Tabl 1. Tybir bod gwerthoedd Ewro 6e-bis-FCM yn gyfwerth â gwerthoedd y byd go iawn, tra bod gwerthoedd cyn 2025 yn cyfateb i werthoedd Ewro 6d. Mae'r gwerthoedd yn y ffigur yn lluosydd ac fe'u dangosir ar draws dosbarthiad y ceir PHEV a werthwyd yn y blynyddoedd a ddangosir.

English	Welsh
Average gap between pre-2025 WLTP CO ₂ and proposed emissions under 6e-bis-FCM (cars)	Bwlch cyfartalog rhwng CO ₂ WLTP cyn 2025 ac allyriadau arfaethedig o dan 6e-bis-FCM (ceir)
Estimated WLTP CO ₂ under 6e-bis-FCM divided by WLTP CO ₂ under Euro 6d	CO ₂ WLTP amcangyfrifedig o dan 6e-bis-FCM wedi'i rannu â CO ₂ WLTP o dan Ewro 6d
Factor relating WLTP 6d CO ₂ to estimated 6e-bis-FCM CO ₂	Ffactor sy'n cysylltu CO ₂ 6d WLTP â CO ₂ 6e-bis-FCM amcangyfrifedig
Median PHEV emits 3.0x more CO ₂ than expected	Mae PHEV canolrifol yn allyrru 3.0 gwaith yn fwy o CO ₂ nag a ddisgwylir
Median PHEV emits 5.0x more CO ₂ than expected	Mae PHEV canolrifol yn allyrru 5.0 gwaith yn fwy o CO ₂ nag a ddisgwylir
5th percentile	5ed ganradd
95th Percentile	95fed Ganradd
Median	Canolrif

124. Ewro 7 yw safon allyriadau ddiweddaraf yr UE. Bydd yn berthnasol i fodelau cerbydau dyletswydd ysgafn newydd yn yr UE (a Gogledd Iwerddon) o 29 Tachwedd 2026. Mae Ewro 7 yn cynnwys y diweddariad Ewro 6e-bis i'r UF a bydd yn cynnwys y diweddariad Ewro 6e-bis-FCM i'r UF yn 2027.
125. Ym mis Ebrill 2026, ymgynghorodd llywodraeth y DU ar symud Prydain Fawr o safon Ewro 6d i safon allyriadau Ewro 7⁶⁷. Cynigiodd yr ymgynghoriad y gallai Prydain Fawr ddilyn yr un dyddiadau gweithredu Ewro 7 â'r UE i leihau'r gwahaniaeth â Gogledd Iwerddon. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 25 Mai 2026 ac mae ymatebion yn cael eu hystyried.

Trin PHEVs yn y Gorchymyn VETS

126. Mae safonau CO₂ VETS (CCTS a VCTS) yn mesur allyriadau CO₂ gwneuthurwr yn erbyn allyriadau mewn blwyddyn 'sylfaen' - fel arfer 2021. Byddai'r diweddariadau i werthoedd allyriadau CO₂ PHEV (o dan Ewro 6e-bis yn 2025 ac Ewro 6e-bis-FCM yn 2027) wedi ei gwneud hi'n fwy heriol i weithgynhyrchwyr gydymffurfio â'r targedau sylfaenol CO₂ yn seiliedig ar werthoedd CO₂ PHEV fel yr oeddent yn gymwys yn 2021.
127. Wrth i fframweithiau cymeradwyo math gael eu diweddarau'n rheolaidd, rhaid i ni sicrhau bod Gorchymyn VETS yn parhau i fod yn addas at y diben. Felly cyflwynwyd addasiad PHEV i gynnal y bwriad polisi gwreiddiol ar gyfer Gorchymyn VETS, gan sicrhau cymhariaeth gyson, debyg â'r allyriadau sylfaenol.
128. Am y rheswm hwn, diwygiwyd y Gorchymyn VETS ym mis Hydref 2025 a daeth i rym ym mis Ionawr 2026 i gyflwyno hyblygrwydd newydd lle gallai gweithgynhyrchwyr wneud cais am werthoedd CO₂ PHEV amgen.
129. Mae'r hyblygrwydd yn brasamcanu gwerth CO₂ PHEV o dan safon allyriadau Ewro 6d (gyda'r ffactor defnydd 'hen', uwch) pan gyfrifwyd y targedau sylfaenol ac yn eu cymhwyso'n ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu nad oes angen i weithgynhyrchwyr ddefnyddio'r gwerthoedd CO₂ uwch sy'n dod i rym o 2025 a 2027 at ddibenion cydymffurfio â Gorchymyn VETS. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws cydymffurfio â

⁶⁷ Ymgynghoriad y llywodraeth, <https://www.gov.uk/government/consultations/updating-the-minimum-emission-standard-for-new-road-vehicles/updating-the-minimum-emission-standard-for-new-road-vehicles>

thargedau sylfaenol CO₂, neu gynhyrchu gormod o CO₂, o ystyried bod y gwerthoedd CO₂ a gymhwysir i gerbydau nad ydynt yn ZEV yn is nag y byddent fel arall heb yr hyblygrwydd hwn. Mae'r hyblygrwydd ar gael tan 2030.

PHEVs a'r Mandad ZEV

130. Er bod cerbydau trydan batri (BEVs) yn arwain marchnad y DU o ran gwerthiannau EV yn 2026, gyda chyfran o'r farchnad o 24.2% hyd yma eleni, PHEVs sydd wedi gweld y twf cryfaf o unrhyw fath o danwydd eleni, gan gynrychioli cyfran gynyddol o werthiannau ceir newydd.⁶⁸
131. Mae cofrestru ceir PHEV (y flwyddyn hyd yma) wedi cynyddu 38% ym mis Mai 2026 o'i gymharu â'r un adeg y llynedd ac mae eu cyfran gyfan o'r farchnad wedi tyfu o 10.3% yn 2025 i 13.0% ym mis Mai 2026.⁶⁹ Mae hyn yn awgrymu y bydd ceir PHEV yn chwarae rhan gynyddol yn y pontio. Mae twf gwerthiant PHEV yn yr UE yn arafach, gan godi o 9.4% o gofrestriadau newydd i 9.9% o 2025 i Ch1 2026.⁷⁰
132. Yn fwy diweddar bu cynnydd amlwg hefyd yn nifer y faniau PHEV, gan godi o ychydig o dan 0.5% yn 2024 i bron i 3% yn 2025. Gwelir twf mewn faniau PHEV yn yr UE ar gyfradd debyg, gan godi o lai na 0.2% yn 2024 i ychydig o dan 2.0% yn 2025.⁷¹
133. Mae gwerthiannau PHEV yn y DU yn cael eu cymell yn rhannol gan hyblygrwydd Mandad ZEV. Mae'r hyblygrwydd UF yn galluogi gweithgynhyrchwyr presennol sydd â PHEVs yn eu portffolio i gynhyrchu arbedion CO₂ yn erbyn eu llinellau sylfaen a throsi'r arbedion hyn yn gredydau ZEV. Mae hyn yn arbennig o wir am weithgynhyrchwyr sydd wedi dod i mewn i farchnad y DU fel ymgeiswyr newydd ar ôl 2024. Mae hyn yn golygu y gall rhai gweithgynhyrchwyr, yn enwedig y rhai sy'n gwerthu PHEVs, ddefnyddio'r credydau a gynhyrchir trwy drosi CO₂ i gefnogi cydymffurfiaeth â phrif dargedau ZEV.
134. I'r rhan fwyaf o weithgynhyrchwyr, mae eu targed CO₂ sylfaenol yn seiliedig ar eu hallyriadau cyfartalog nad ydynt yn ZEV ar gyfer 2021. Ar gyfer gweithgynhyrchwyr a ddaeth i mewn i farchnad y DU yn 2022 neu 2023, mae eu targedau sylfaenol yn seiliedig ar eu hallyriadau cyfartalog ar gyfer eu blwyddyn gyntaf o gofrestru cerbydau nad ydynt yn ZEVs yn y DU. Mae gweithgynhyrchwyr sy'n dod i mewn o 2024 ymlaen yn derbyn llinell sylfaen sy'n hafal i allyriadau CO₂ nad ydynt yn ZEV ar gyfartaledd y diwydiant ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
135. Mae allyriadau CO₂ cyfartalog cerbydau nad ydynt yn ZEV a werthir yn y DU wedi lleihau a disgwylir iddynt barhau i ostwng. Fodd bynnag, nid yw'r targed sylfaenol CO₂

⁶⁸SMMT, Mehefin 2026: <https://www.smm.co.uk/vehicle-data/car-registrations/>. Gallai ffigurau SMMT fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd gan y DfT fel yr amlinellir yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/vehicles-statistics-information/vehicle-licensing-statistics-faster-indicators-of-new-vehicle-registrations>

⁶⁹ Fel troednodyn 66.

⁷⁰ Cerbydau a Fflyd, Arsyllfa Tanwyddau Amgen Ewropeaidd: <https://alternative-fuels-observatory.ec.europa.eu/transport-mode/road/european-union-eu27/vehicles-and-fleet>

⁷¹ Fel troednodyn 68.

effeithiol sy'n berthnasol i gwmnïau newydd yn 2024 a 2025 yn sylweddol is na thargedau sylfaenol CO₂ rhai gweithgynhyrchwyr presennol.

136. Mewn amgylchiadau lle mae gan weithgynhyrchwyr newydd gymysgedd cynnyrch nad ydynt yn gerbydau ZEV sy'n lanach na'r cyfartaledd (e.e. maent yn gwerthu cyfran uchel o PHEVs), gallant ymuno â marchnad y DU gyda mantais gan y gallant gronni arbedion CO₂ o'i gymharu â llinell sylfaen sydd wedi'i phwysoli'n drymach i gerbydau nad ydynt yn hybrid. Gellir trosi'r arbedion hyn yn gredydau ZEV i gefnogi cydymffurfiaeth. Mae hyn yn golygu y gellir cyflawni cyfran sylweddol o'u rhwymedigaethau ZEV trwy werthiannau nad ydynt yn ZEV, gan gyfeirio'r ffocws i ffwrdd o ddefnyddio ZEV.
137. Rydym eisoes yn gweld arwyddion cynnar o hyn yn y farchnad geir, gyda thwf cyflym mewn PHEV yn cael ei arwain gan gwmnïau newydd. Ar yr un pryd, mae hyblygrwydd yr UF o fudd i weithgynhyrchwyr presennol sydd â PHEVs yn eu portffolio, gan roi cymhelliant cryf i werthu mwy ohonynt.
138. Mae twf pellach mewn gwerthiannau PHEV, a alluogir gan y Mandad, mewn perygl o erydu ei arbedion carbon disgwyledig a'i fanteision ansawdd aer, er bod gweithgynhyrchwyr yn parhau i gydymffurfio'n dechnegol â'r rheoliad. Mae hyn oherwydd bod allyriadau PHEV yn uwch yn y byd go iawn nag y mae profion allyriadau WLTP cyfredol yn ei ddangos.

Gwnaed yn Ewrop

139. Ym mis Rhagfyr 2025, cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd ei Becyn Modurol, fframwaith polisi sy'n ceisio cefnogi'r sector modurol yn y pontio i sero net, gan gynnwys ymrwymiad i ddiwygio safonau allyriadau CO₂ yr UE.
140. I gyflawni'r pecyn, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynnig y Ddeddf Cyflymydd Diwydiannol (IAA) ym mis Mawrth 2026. Mae'r cynnig yn cynnwys mesurau o'r enw 'Gwnaed yn Ewrop', a fyddai'n cefnogi diwydiant Ewropeaidd yn benodol o dan reoliadau allyriadau CO₂ yr UE.
141. Mae'r mesurau arfaethedig yn cynnwys creu 'uwch-gredydau' newydd. Bydd gweithgynhyrchwyr yn gallu elwa o gredyd newydd cyn 2035 ar gyfer ceir trydan fforddiadwy bach (M1e) a wneir yn yr Undeb Ewropeaidd. Byddant hefyd yn gallu ennill credydau o 2035 ymlaen ar gyfer unrhyw gerbydau nad ydynt yn ZEV a weithgynhyrchir â dur gwyrdd a wnaed yn yr UE.
142. Er nad yw cynigion yr UE wedi'u deddfu eto, mae'r diwydiant modurol wedi codi pryderon gyda llywodraeth y DU ynghylch yr effaith y gallai cynigion Gwnaed yn Ewrop ei chael ar sector modurol y DU pe bai'n cael ei eithrio o'r credydau hyn.


Rhan 3: Dewisiadau polisi

143. Ym mis Hydref 2025, yn dilyn ymgynghori helaeth, gosododd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ddeddfwriaeth i ehangu hyblygrwydd Mandad ZEV er mwyn rhoi llwybrau ychwanegol i weithgynhyrchwyr i gydymffurfio. Daeth y newidiadau hyn i rym ym mis Ionawr.
144. Mae adolygiad y Mandad ZEV yn rhoi cyfle i asesu'r rheoliad, gan adeiladu ar y llwybrau cydymffurfio estynedig a gyflwynwyd gan welliannau VETS a osodwyd fis Hydref diwethaf, er mwyn nodi a oes angen mireinio pellach a ble y gallai fod angen gwneud hynny.
145. Mae Rhan 3 o'r ymgynghoriad yn cyflwyno opsiynau ar gyfer gwelliannau i'r Gorchymyn VETS. Mae Rhan 3A yn ystyried opsiynau llwybr ZEV ar gyfer ceir a faniau, mae Rhan 3B yn ystyried hyblygrwydd Mandad ZEV presennol ac mae Rhan 3C yn ystyried mecanweithiau credyd newydd, adolygiad o lefelau talu cydymffurfio, ac yn ailystyried gosod llinellau sylfaen CO₂ nad ydynt yn ZEV. Mae Rhan 3D yn amlinellu atebion polisi mewn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn olaf mae Rhan 3E yn edrych ar nodweddion eraill y Gorchymyn VETS ac yn ystyried a yw'r rhain yn parhau i fod yn effeithiol ar gyfer gweithredu o ddydd i ddydd.
146. Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad hwn, bydd yr Adran Seilwaith (GI), Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU, a Llywodraeth Cymru oll yn ystyried yn ofalus a yw deddfwriaeth bellach i ddiwygio VETS yn briodol ac yn ymateb maes o law. Mae'r Adran Seilwaith, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU, a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod VETS yn parhau i fod yn addas at y diben wrth iddo gyflawni'r pontio i ZEVs ar gyfer y DU. Edrychwn ymlaen at adolygu eich ymatebion gan groesawu tystiolaeth ategol lle bo'n briodol.

3A. Trywyddau derbyniad ZEV

147. Cyflwynwyd trywyddau Mandad ZEV yn dilyn ymgynghori helaeth i ddarparu sicrwydd yn y farchnad, sbarduno twf a gosod y llwybr ar gyfer y pontio i ZEV yn y DU.
148. Mae Ffigur 8 yn dangos y prif dargedau canrannol cyfredol ar gyfer cyfran y ceir a'r faniau newydd y mae'n rhaid iddynt fod yn ddi-allyriadau bob blwyddyn galendr. Mae'r rhain yn brif dargedau oherwydd, tan 2029, gall gweithgynhyrchwyr eu cyflawni trwy

ystod o hyblygrwydd cydymffurfio ac nid oes gofyn iddynt eu cyflawni trwy werthiannau ZEV yn unig.



Ffigwr 8. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol rhwng 2024 a 2035, ar gyfer ceir a faniau.⁷²

English	Welsh
ZEV Targets	Targedau ZEV
Dashed lines show indicative targets	Mae llinellau toredig yn dangos targedau dangosol
Car Target	Targed Ceir
Van Target	Targed Faniau
ZEV % of the new sales	% ZEV o'r gwerthiannau newydd

149. Mae llwybrau'r Mandad ZEV yn dilyn cromlin twf siâp S, sy'n nodweddiadol o fabwysiadu technoleg newydd. Mae hyn yn tybio twf cymharol gyson yn rhan gyntaf y 2020au, gyda thwf cyflymach tua diwedd y degawd wrth i fabwysiadu cerbydau trydan gynyddu. Cynlluniwyd y llwybrau i fod yn uchelgeisiol ac yn gyraeddadwy, gan sbarduno twf a buddsoddiad wrth gyflawni arbedion carbon.

150. Er bod marchnad cerbydau trydan y DU yn parhau i ehangu, gyda'r defnydd yn cyflymu yn ystod y misoedd diwethaf, fel y mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i nodi, mae pwysau ehangach ar y sector modur ac ar werthiannau cerbydau trydan wedi dod i'r amlwg ers ymgynghori ar drywyddau Mandad cerbydau trydan a'u cyflwyno gyntaf. Mae pwysau byd-eang parhaus wedi codi costau, wedi lleihau hyder defnyddwyr a chynyddu

⁷² Mae targedau ZEV o 2031 ymlaen yn ddangosol gan nad ydynt wedi'u mabwysiadu mewn deddfwriaeth eto.

anwadalrwydd, gan ei gwneud hi'n anoddach rhagweld y defnydd o ZEV. Mae'r pwysau hyn wedi dwysáu ers ymgynghori ar hyblygrwydd ychwanegol y llynedd.⁷³

151. Mae ymgysylltu diweddar yn awgrymu bod yr ansicrwydd hwn yn ei gwneud hi'n anoddach i weithgynhyrchwyr gyrraedd targedau Mandad ZEV blynyddol sy'n cynyddu'n gyflym yn ddibynadwy, hyd yn oed pan fyddant yn parhau i fod wedi ymrwymo i bwyntiau terfyn hirdymor 2030 a 2035.
152. O ystyried natur ddynamig y farchnad gerbydau, a natur drawsnewidiol y pontio i ZEV, y bwriad bob amser oedd cadw llwybrau'r ZEV dan adolygiad. O'r ymgynghoriadau cynharaf, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi cadw'r hawl i ddiwygio llwybrau mewn ymateb i newidiadau sylweddol.
153. Fe wnaethon ni ymrwymo na fyddai newidiadau'n cael eu cyflwyno heb ymgynghori ac ymgysylltu pellach. Yn unol â hynny, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ceisio barn ynghylch a oes angen dull diwygiedig o ran llwybrau Mandad ZEV presennol o ystyried amodau'r farchnad ar y pryd.

Opsiynau dan ystyriaeth

154. Mae tystiolaeth y gallai fod angen targedau cyffredinol is ar gyfer ceir a faniau hyd at 2030 i gefnogi gweithgynhyrchwyr yn y DU i bontio. Mae cadw Mandad ZEV uchelgeisiol sy'n cydnabod y rôl bwysig a chwaraeir gan y diwydiannau modur a gwefru cerbydau trydan i economi'r DU, yn cefnogi diogelwch ynni, yn lleihau costau byw ac yn cyflawni targedau hinsawdd yn bwysig i bob llywodraeth.
155. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eisiau ystyried y dyddiadau dod i ben ar hyblygrwydd presennol yng nghyd-destun ehangach ymrwymadau Llywodraeth y DU ar gyfer 2030 a 2035. Gellid cyfuno'r holl opsiynau llwybr isod ag amrywiaeth o opsiynau hyblygrwydd, gan gynnwys ymestyn hyblygrwydd a chynyddu eu haelioni, neu dynhau hyblygrwydd yn gymesur i sicrhau nad ydynt yn rhy hael yng nghyd-destun newid llwybr. Rydym yn croesawu adborth ar y cyfuniadau posibl hyn.
156. Mae yna nifer o ffyrdd y gellid newid y Mandad. Felly, cyflwynir pedwar trywydd Mandad ZEV amgen ar gyfer ceir a faniau i'w hystyried, ochr yn ochr â'r trywyddau presennol. Mae'r rhain yn adlewyrchu opsiynau amgen posibl i gefnogi llwybr tuag at 100% o gerbydau ZEV erbyn 2035. Er mai dim ond estyniad yr hyblygrwydd mewn un opsiwn y mae'r ffigurau'n ei ddangos, dylid ystyried y potensial i ymestyn hyblygrwydd yng nghwmpas yr holl opsiynau llwybr amgen. Rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dangos ymrwymiad i sicrhau bod pob car a fan newydd yn ddi-allyriadau.
157. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn gwahodd barn ar ddull a ffeifir, gan gynnwys hyfywedd ac ymarferoldeb cyflawni'r llwybrau presennol, a yw'r rhain

⁷³ Ymgynghoriad y llywodraeth, assets.publishing.service.gov.uk/media/679382182de28ea2d392f37f/phasing-out-the-sale-of-new-petrol-and-diesel-cars-from-2030-and-support-for-the-zero-emission-transition.pdf

yn parhau i fod yn briodol, a'r effaith bosibl y dewisiadau amgen arfaethedig ar y pontio i ZEV. Mae pob trywydd amgen yn parhau i fod yn gynigion cychwynnol. Mae'r opsiynau terfynol, gan gynnwys a yw trywyddau'n cael eu diwygio a sut, yn ddibynnol ar yr adborth a dderbynnir drwy'r ymgynghoriad hwn.

158. Ni fydd unrhyw welliannau i'r trywyddau yn newid y gyrchfan. Ni fydd llywodraeth y DU yn diwygio ei phrif ymrwymiad i roi'r gorau i werthu ceir petrol a diesel newydd erbyn 2030 ac i bob car a fan newydd fod yn gwbl ddi-allyriadau erbyn 2035. Mae'r rhain yn parhau i fod yn signalau defnyddwyr a buddsoddi hirdymor hollbwysig.
159. Nid ydym wedi cynnwys effeithiau carbon ynysig ar gyfer trywyddau Mandad ZEV amgen, oherwydd y rhyngweithiadau cymhleth rhwng yr hyblygrwydd a phrif dargedau ZEV. Yn lle hynny, rydym wedi asesu effeithiau carbon y rheoliadau presennol a phedwar opsiwn darluniadol pellach sy'n cyd-fynd â'r trywyddau amgen a ystyrir yn yr adran hon. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys parhad amrywiol hyblygrwydd y tu hwnt i 2030; mae cyfuniadau eraill yn bosibl. Am ragor o wybodaeth gweler Rhan 4 – Effaith carbon yr opsiynau a ystyriwyd.

Trywyddau ceir


Mandad Cyfredol: Prif darged ZEV o 80% erbyn 2030

160. Mae targedau blynyddol deddfwriaethol presennol ar gyfer ceir ZE yn cyrraedd gwerthiannau o 80% ZEV yn 2030, gyda chyfeiriad dangosol tuag at 100% o werthiannau ZEV yn 2035, yn unol ag ymateb ymgynghoriad ar y cyd y llywodraeth ym mis Hydref 2023.⁷⁴ Mae hyn yn gofyn am dwf blynyddol mwy serth yn y blynyddoedd cyn 2030, a thwf blynyddol arafach rhwng 2030 a 2035. Un opsiwn fyddai cynnal y trywydd presennol heb newid, er bod Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cydnabod y gallai rhai gweithgynhyrchwyr yn y DU ei chael hi'n anodd cyflawni'r trywydd hwn.

Blwyddyn	Targed
2027	38%
2028	52%
2029	66%
2030	80%
2031	84%
2032	88%
2033	92%
2034	96%
2035	100%

Tabl 1. Prif dargedau cofrestru ZEV presennol, yn dangos 80% o werthiannau ceir ZEV yn 2030.

⁷⁴ Ymateb i ymgynghoriad y llywodraeth, Hydref 2023: [Ymgynghoriad mandad cerbydau di-allyriadau \(ZEV\): crynodeb o'r ymatebion ac ymateb ar y cyd gan y llywodraeth - GOV.UK](#)



Ffigur 9. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol cyfredol o 2030 ar gyfer ceir, ochr yn ochr â gwerthiannau ZEV gofynnol damcaniaethol os defnyddir trosglwyddo CO₂ i ZEV yn llawn.

English	Welsh
Range of possible ZEV share accounting for CO ₂ transfers	Ystod o gyfrifyddu cyfrannau ZEV posibl ar gyfer trosglwyddiadau CO ₂
Theoretical minimum ZEV sales accounting for CO ₂ transfers	Gwerthiannau ZEV lleiaf damcaniaethol yn cyfrif am drosglwyddiadau CO ₂
ZEV Target	Targed ZEV
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)

161. Mae'r llinell doredig las golau yn Ffigur 9 (a'r llinellau toredig yn Ffigurau 13, 15 ac 19 sy'n dilyn) yn cynrychioli'r isafswm damcaniaethol y gallai gweithgynhyrchwyr gwerthiannau ZEV ei gyflawni pe byddent yn gwneud y defnydd mwyaf o'r hyblygrwydd trosi CO₂. Ar hyn o bryd, caniateir yr hyblygrwydd hwn rhwng 2024 a 2029 ac mae'n caniatáu i weithgynhyrchwyr drosi gorberfformiad yn erbyn targedau CO₂ nad ydynt yn ZEV yn gredydau ZEV, y gellir eu defnyddio i gyrraedd y prif darged ZEV. Yn ymarferol, ni ddisgwylir i'r rhan fwyaf o weithgynhyrchwyr ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn yn llawn gan y byddai gwneud hynny'n gofyn am ddibyniaeth sylweddol ar PHEVs i gynhyrchu'r arbedion CO₂ angenrheidiol, ac nid oes gan bob gweithgynhyrchydd ddigon o PHEVs yn eu portffolio. Mae hyblygrwydd arall fel benthyca ar gael, er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y siart.

162. Am ragor o wybodaeth ynghylch hyblygrwydd Mandad ZEV gweler 'Sut mae Mandad ZEV yn Gweithio' yn Rhan 1 o'r ddogfen hon. Mae rhagor o fanylion am hyblygrwydd trosi CO₂ wedi'u nodi yn Adran 3B isod.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod angen unrhyw newid i drywydd presennol y Mandad ZEV ar gyfer ceir? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.


Dewisiadau amgen

Opsiwn 1: Prif darged ZEV o 70% erbyn 2030

163. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau'r targedau blynyddol ar gyfer ceir ZE o 2027, gan godi i gyrraedd 70% o werthiannau ZEV yn 2030 a 100% o werthiannau ZEV yn 2035. Mae'r twf blynyddol sydd ei angen o 2030 ychydig yn fwy nag o dan y trywydd presennol, o ystyried y gyfran ZEV is yn 2030.

Blwyddyn	Targed
2027	36%
2028	46%
2029	58%
2030	70%
2031	76%
2032	82%
2033	88%
2034	94%
2035	100%

Tabl 2. Prif dargedau cofrestru ZEV amgen, yn dangos 70% o werthiannau ceir ZE yn 2030.



Ffigwr 10. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol o dan opsiwn 1 o 2027 ymlaen ar gyfer ceir.


English	Welsh
Dashed lines show indicative targets	Mae llinellau toredig yn dangos targedau dangosol
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)

Opsiwn 2: Prif darged ZEV o 60% erbyn 2030

164. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau targedau blynyddol ceir ZE ymhellach o 2027, gan godi'n arafach i gyrraedd 60% o werthiannau ZEV yn 2030 a 100% o werthiannau ZEV yn 2035. Mae'r twf blynyddol sydd ei angen o 2030 yn fwy nag o dan Opsiwn 1 o ystyried y gyfran ZEV is yn 2030.

Blwyddyn	Targed
2027	36%
2028	44%
2029	52%
2030	60%
2031	68%
2032	76%
2033	84%
2034	92%
2035	100%

Tabl 3. Prif dargedau cofrestru ZEV amgen, yn dangos 60% o werthiannau ceir ZE yn 2030.



Ffigwr 11. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol o dan opsiwn 2 o 2027 ymlaen ar gyfer ceir.


English	Welsh
Dashed lines show indicative targets	Mae llinellau toredig yn dangos targedau dangosol
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)

Opsiwn 3: Prif darged ZEV o 50% erbyn 2030

165. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau targedau blynyddol ceir ZE ymhellach o 2027, gan godi hyd yn oed yn arafach i gyrraedd 50% o werthiannau ZEV yn 2030 a 100% o werthiannau ZEV yn 2035. Y twf blynyddol sydd ei angen o 2030 yw'r mwyaf o'r opsiynau a gyflwynwyd, o ystyried y gyfran ZEV is yn 2030.

Blwyddyn	Targed
2027	35%
2028	37%
2029	42%
2030	50%
2031	60%
2032	70%
2033	80%
2034	90%
2035	100%

Tabl 4. Prif dargedau cofrestru ZEV amgen, yn dangos 50% o werthiannau ceir ZE yn 2030.



Ffigwr 12. Prif dargedau deddfwriaethol a thargedau ZEV dangosol o dan opsiwn 3 o 2027 ymlaen.


English	Welsh
Dashed lines show indicative targets	Mae llinellau toredig yn dangos targedau dangosol
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)

Opsiwn 4: Prif darged ZEV o 80% erbyn 2030, gyda hyblygrwydd estynedig

166. Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r targedau ceir ZE blynyddol presennol, gan gyrraedd 80% o werthiannau ZEV yn 2030 a 100% o werthiannau ZEV yn 2035, ond mae'n ymestyn hyblygrwydd allweddol fel benthyca, bancio a throsi CO₂ i 2034.
167. Drwy ymestyn yr hyblygrwydd allweddol hwn, sy'n dod i ben yn 2029 ar hyn o bryd, mae'r opsiwn hwn yn cynnal y prif dargedau ond yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gyfranogwyr i'w cyflawni. Golyga hyn y gallai gwerthiannau ceir ZE barhau i fod islaw'r prif dargedau o 2030, o ystyried y bydd cyfranogwyr yn gallu cydymffurfio â Gorchymyn VETS drwy werthiannau ZEV a defnyddio hyblygrwydd.

Blwyddyn	Targed
2027	38%
2028	52%
2029	66%
2030	80%
2031	84%
2032	88%
2033	92%
2034	96%
2035	100%


Tabl 5. Prif dargedau cofrestru ZEV, yn dangos 80% o werthiannau ceir ZE yn 2030. Ni ddangosir hyblygrwydd estynedig yn y tabl hwn.



Ffigwr 13. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol cyfredol o 2030 ar gyfer ceir, ochr yn ochr â gwerthiannau ZEV gofynnol damcaniaethol os defnyddir trosglwyddo CO₂ i ZEV yn llawn dan opsiwn 4.

English	Welsh
Range of possible ZEV share accounting for CO ₂ transfers	Ystod o gyfrifyddu cyfrannau ZEV posibl ar gyfer trosglwyddiadau CO ₂
Theoretical minimum ZEV sales accounting for CO ₂ transfers	Gwerthiannau ZEV lleiaf damcaniaethol yn cyfrif am drosglwyddiadau CO ₂
ZEV Target	Targed ZEV
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)

Crynodeb o opsiynau trywydd



Ffigur 14. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol cyfredol ar gyfer ceir a phedwar opsiwn amgen.

English	Welsh
Current Regulation / Option 4	Rheoliad Cyfredol / Opsiwn 4
Option 1	Opsiwn 1
Option 2	Opsiwn 2
Option 3	Opsiwn 3
ZEV target as share of new sales (%)	Targed ZEV fel cyfran o werthiannau newydd (%)

Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ar drywydd ceir presennol y Gorchymyn ZEV, a'r pedwar trywydd ceir amgen a gyflwynwyd? Pa un, os o gwbl, yw eich dewis? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 3: Pa drywyddau ceir amgen atodol, os o gwbl, ydych chi'n credu y dylid eu hystyried? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 4: A oes gennych farn ynghylch a ddylai estyniad o'r hyblygrwydd presennol y tu hwnt i 2030 gyd-fynd â newid yn y prif drywydd ar gyfer ceir? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Trywyddau faniau


Mandad Cyfredol: Prif darged ZEV o 70% erbyn 2030

168. Mae targedau blynyddol deddfwriaethol presennol ar gyfer faniau ZE yn cyrraedd gwerthiannau o 70% ZEV yn 2030, gyda chyfeiriad dangosol tuag at 100% o werthiannau ZEV yn 2035, yn unol ag ymateb ymgynghoriad mis Hydref 2023.⁷⁵ Mae hyn yn gofyn am dwf blynyddol mwy serth yn y blynyddoedd cyn 2030, a thwf blynyddol arafach rhwng 2030 a 2035. Un opsiwn fyddai cynnal y trywydd presennol heb newid, er bod Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cydnabod nad yw pob gweithgynhyrchydd yn y DU yn gallu cyflawni'r trywydd hwn.

Blwyddyn	Targed
2027	34%
2028	46%
2029	58%
2030	70%
2031	76%
2032	82%
2033	88%
2034	94%
2035	100%

Tabl 6. Targedau pennawd cofrestru ZEV presennol, yn dangos 70% o werthiannau faniau ZEV yn 2030.

⁷⁵ Ymateb i ymgynghoriad y llywodraeth, Hydref 2023: [Ymgynghoriad mandad cerbydau di-allyriadau \(ZEV\): crynodeb o'r ymatebion ac ymateb ar y cyd gan y llywodraeth - GOV.UK](#)



Ffigur 15. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol cyfredol o 2030 ar gyfer faniau, ochr yn ochr â gwerthiannau ZEV gofynnol damcaniaethol os defnyddir trosglwyddo CO₂ i ZEV yn llawn.

English	Welsh
Range of possible ZEV share accounting for CO ₂ transfers	Ystod o gyfrifyddu cyfrannau ZEV posibl ar gyfer trosglwyddiadau CO ₂
Minimum ZEV sales accounting for CO ₂ transfers	Gwerthiannau ZEV lleiaf yn cyfrif am drosglwyddiadau CO ₂
ZEV Target	Targed ZEV
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)

169. Mae'r llinell doredig binc golau yn Ffigur 15 yn cynrychioli'r isafswm damcaniaethol y gallai gweithgynhyrchwyr gwerthiannau ZEV ei gyflawni pe byddent yn gwneud y defnydd mwyaf o'r hyblygrwydd trosi CO₂. Ar hyn o bryd, caniateir yr hyblygrwydd hwn yn y cyfnod 2024 i 2029 ac mae'n caniatáu i weithgynhyrchwyr drosi gorberfformiad yn erbyn targedau CO₂ nad ydynt yn dargedau ZEV yn gredydau ZEV, y gellir eu defnyddio i gyflawni yn erbyn prif darged ZEV. Mae hyblygrwydd arall fel benthyca ar gael, er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y siart.

170. Yn ymarferol, ni ddisgwylir i'r rhan fwyaf o weithgynhyrchwyr ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn yn llawn gan y byddai gwneud hynny'n gofyn am ddibyniaeth sylweddol ar PHEVs i gynhyrchu'r arbedion CO₂ angenrheidiol, ac nid oes gan bob gweithgynhyrchydd ddigon o PHEVs yn eu portffolio.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu bod angen unrhyw newid i drywydd presennol y Mandad ZEV ar gyfer faniau? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.


Dewisiadau amgen

Opsiwn 1: Prif darged ZEV o 60% erbyn 2030

171. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau targedau blynyddol faniau ZE o 2027, gan gyrraedd 60% o werthiannau ZEV yn 2030 a chodi i 100% yn 2035. Mae'r twf blynyddol sydd ei angen o 2030 ychydig yn fwy nag o dan y llwybr presennol o ystyried y gyfran ZEV is yn 2030.

Blwyddyn	Targed
2027	33%
2028	42%
2029	51%
2030	60%
2031	68%
2032	76%
2033	84%
2034	92%
2035	100%

Tabl 7. Prif dargedau cofrestru ZEV amgen, yn dangos 60% o werthiannau faniau ZE yn 2030.



Ffigwr 16. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol o dan opsiwn 1 o 2027 ymlaen ar gyfer faniau.


English	Welsh
Dashed lines show indicative targets	Mae llinellau toredig yn dangos targedau dangosol
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)

Opsiwn 2: Prif darged ZEV o 50% erbyn 2030

172. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau targedau blynyddol faniau ZE ymhellach o 2027, gan godi'n arafach i gyrraedd 50% o werthiannau ZEV yn 2030 a 100% o werthiannau ZEV yn 2035. Mae'r twf blynyddol sydd ei angen o 2030 yn fwy nag o dan Opsiwn 1 o ystyried y gyfran ZEV is yn 2030.

Blwyddyn	Targed
2027	31%
2028	37%
2029	44%
2030	50%
2031	60%
2032	70%
2033	80%
2034	90%
2035	100%

Tabl 8. Prif dargedau cofrestru ZEV amgen, yn dangos 50% o werthiannau faniau ZE yn 2030.



Ffigwr 17. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol o dan opsiwn 2 o 2027 ymlaen ar gyfer faniau.

English	Welsh
Dashed lines show indicative targets	Mae llinellau toredig yn dangos targedau dangosol
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)


Opsiwn 3: Prif darged ZEV o 40% erbyn 2030

173. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau targedau blynyddol faniau ZE o 2027, gan godi hyd yn oed yn arafach i gyrraedd 40% o werthiannau ZEV yn 2030 ac yna codi'n fwy serth i

gyrraedd 100% o werthiannau ZEV yn 2035. Y twf blynyddol sydd ei angen o 2030 yw'r mwyaf o'r opsiynau a gyflwynwyd, o ystyried y gyfran ZEV is yn 2030.

Blwyddyn	Targed
2027	28%
2028	32%
2029	36%
2030	40%
2031	52%
2032	64%
2033	76%
2034	88%
2035	100%

Tabl 9. Prif dargedau cofrestru ZEV amgen, yn dangos 40% o werthiannau faniau ZE yn 2030.



Ffigwr 18. Targedau deddfwriaethol a dangosol o dan opsiwn 3 o 2027 ymlaen, ar gyfer faniau.

English	Welsh
Dashed lines show indicative targets	Mae llinellau toredig yn dangos targedau dangosol
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)


Opsiwn 4: Prif darged ZEV o 70% erbyn 2030 gyda hyblygrwydd estynedig

174. Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r targedau faniau ZE blynyddol presennol, gan gyrraedd 70% o werthiannau ZEV yn 2030 a 100% o werthiannau ZEV yn 2035, ond mae'n ymestyn hyblygrwydd allweddol fel benthyca, bancio a throsi CO₂ i 2034.
175. Drwy ymestyn yr hyblygrwydd allweddol hwn, sy'n dod i ben yn 2029 ar hyn o bryd, mae'r opsiwn hwn yn cynnal y prif dargedau ond yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gyfranogwyr i'w cyflawni. Golyga hyn y gallai gwerthiannau faniau ZE barhau i fod

islaw'r prif dargedau o 2030, o ystyried y bydd cyfranogwyr yn gallu cydymffurfio â Gorchymyn VETS drwy werthiannau ZEV a defnyddio hyblygrwydd.


Blwyddyn	Targed
2027	34%
2028	46%
2029	58%
2030	70%
2031	76%
2032	82%
2033	88%
2034	94%
2035	100%

Tabl 10. Prif dargedau cofrestru ZEV, yn dangos 70% o werthiannau faniau ZE yn 2030. Ni ddangosir hyblygrwydd estynedig yn y tabl hwn.



Ffigwr 19. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol a dangosol o dan opsiwn 4 o 2027 ymlaen ar gyfer faniau.

English	Welsh
Range of possible ZEV share accounting for CO ₂ transfers	Ystod o gyfrifyddu cyfrannau ZEV posibl ar gyfer trosglwyddiadau CO ₂
Minimum ZEV sales accounting for CO ₂ transfers	Gwerthiannau ZEV lleiaf yn cyfrif am drosglwyddiadau CO ₂
ZEV Target	Targed ZEV
Share of new sales that are ZEV (%)	Cyfran o werthiannau newydd sy'n ZEV (%)



Ffigwr 20. Prif dargedau ZEV deddfwriaethol cyfredol ar gyfer faniau a phedwar opsiwn amgen ar gyfer newid.

English	Welsh
Current Regulation / Option 4	Rheoliad Cyfredol / Opsiwn 4
Option 1	Opsiwn 1
Option 2	Opsiwn 2
Option 3	Opsiwn 3

Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ar drywydd ceir presennol y Gorchymyn ZEV, a'r pedwar trywydd faniau amgen a gyflwynwyd? Pa un, os o gwbl, yw eich dewis? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.


Cwestiwn 7: Pa drywyddau faniau amgen atodol, os o gwbl, ydych chi'n credu y dylid eu hystyried? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 8: A oes gennych farn ynghylch a ddylai estyniad o'r hyblygrwydd presennol y tu hwnt i 2030 gyd-fynd â newid yn y prif drywydd ar gyfer faniau? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

3B. Hyblygrwydd yn y Mandad ZEV

Trosiad CO₂

176. Yr hyblygrwydd trosi CO₂ oedd yr hyblygrwydd a ddefnyddiwyd fwyaf i gefnogi cydymffurfiaeth ar gyfer blwyddyn cynllun VETS 2024.⁷⁶ Defnyddiodd gweithgynhyrchwyr ceir a faniau'r hyblygrwydd trosi CO₂ i ZEV yn helaeth i gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 4.7% a 5.3% o gofrestrïadau ZEV ychwanegol yn y drefn honno. Fe wnaeth trosi CO₂, ynghyd â gwerthiannau ZEV, ganiatáu i farchnadoedd ceir a faniau ragori ar eu prif dargedau ZEV wrth arbed carbon.



Ffigwr 21. Perfformiad Mandad ZEV 2024 a defnydd o hyblygrwydd - marchnad ceir a marchnad faniau.

⁷⁶ Adroddiad cydymffurfiaeth a data terfynol ar gyfer blwyddyn y cynllun 2024, Mawrth 2026: <https://www.gov.uk/government/publications/vehicle-emissions-trading-schemes-vets-final-compliance-information-2024>

English	Welsh
2024 ZEV Mandate performance and use of flexibilities	Perfformiad Mandad ZEV 2024 a defnydd o hyblygrwydd
-Car market and van market	-Marchnad ceir a marchnad faniau
22% ZEV target (cars)	Targed ZEV o 22% (ceir)
Borrowing: 1.2%	Benthycu: 1.2%
CO ₂ conversion: 4.7%	Trosiad CO ₂ : 4.7%
ZEV sales: 19.8%	Gwerthiannau ZEV: 19.8%
Banked allowances: 3.7%	Lwfansau wedi eu bancio: 3.7%
ZEV Mandate Compliance - Cars	Cydymffurfiaeth â Mandad ZEV - Ceir
10% ZEV target (vans)	Targed ZEV o 10% (faniau)
Borrowing: 0.2%	Benthycu: 0.2%
CO ₂ conversion: 5.3%	Trosiad CO ₂ : 5.3%
ZEV sales: 6.8%	Gwerthiannau ZEV: 6.8%
Banked allowances: 2.3%	Lwfansau wedi eu bancio: 2.3%
ZEV Mandate Compliance - Vans	Cydymffurfiaeth Mandad ZEV - Faniau
Total ZEV sales	Cyfanswm gwerthiannau ZEV
Converted allowances	Lwfansau wedi'u trosi
Borrowed allowances	Lwfansau wedi'u benthycu
Banked allowances	Lwfansau wedi'u bancio
ZEV target	Targed ZEV

177. Mae data rhagarweiniol yn awgrymu mai'r hyblygrwydd trosi CO₂ fydd yr hyblygrwydd a ddefnyddir fwyaf ym mlwyddyn cynllun 2025, gan gadarnhau ei bwysigrwydd wrth gefnogi cydymffurfiaeth.

178. Ar hyn o bryd, caniateir yr hyblygrwydd trosi CO₂ tan 2029. Rydym yn ystyried ymestyn argaeledd hyblygrwydd trosi CO₂ tan 2034. Byddai hyn yn caniatáu i weithgynhyrchwyr barhau i elwa o leihau allyriadau eu cerbydau newydd nad ydynt yn ZEVs am gyfnod hirach a chadw llwybrau amgen i gydymffurfio. Byddai hyn yn eu galluogi i barhau i gyrraedd targedau ZEV heb ddibynnu'n llwyr ar werthiannau.

179. Os caiff ei ymestyn, rydym yn rhagweld y byddai'r hyblygrwydd yn parhau i fod yn destun capiau blynyddol i sicrhau cynnydd parhaus mewn gwerthiannau ZEV. Mae'r hyblygrwydd trosi CO₂ yn dod i ben yn 2029 ar hyn o bryd, wedi'i gapio ar 50% o'r targed ZEV ar gyfer ceir a faniau. Mae'r cap yn gostwng 10% yn flynyddol o 2025 ymlaen.

	2024	2025	2026	2027	2028	2029	2030
Maximum percentage of trajectory permitted to be met by CO₂ conversion	65%	90%	80%	70%	60%	50%	0%

Tabl 11. Capiau trosi CO₂ presennol ar gyfer ceir a faniau.

English	Welsh
Maximum percentage of trajectory permitted to be met by CO ₂ conversion	Canran uchaf o'r trywydd a ganiateir i'w gyflawni trwy drosi CO ₂

180. Yn amodol ar y safbwyntiau yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn rhagweld y gallai dull tebyg barhau gyda hyblygrwydd trosi CO₂ estynedig. Byddai'r hyblygrwydd yn parhau i fod yn destun capiau blynyddol, a allai leihau i gyrraedd 100% o werthiannau ZEV yn 2035.
181. Rydym yn agored i safbwyntiau ar beth ddylai'r capiau hyn fod, gyda'r egwyddor gyffredinol y byddai'r rhain yn gymesur ag unrhyw drywydd amgen a fabwysiadir h.y. po isaf yw'r trywydd amgen, y tynnaf yw'r cap trosi CO₂.
182. Yn Rhan 4, rydym wedi modelu pecynnau darluniadol lle mae hyblygrwydd wedi'i ymestyn. Diffinnir y cap trosi CO₂ fel canran o'r targed ZEV. Golyga hyn naill ai y bydd gostyngiad yn y cap trosi CO₂ neu ostyngiad yn y targed ZEV yn lleihau'r swm mwyaf o drosi CO₂ (cyfanswm y trosglwyddiadau CCTS neu VCTS).
183. Er enghraifft, pe bai'r targed ZEV yn 80% yn 2030 a bod y cap trosglwyddo CO₂ yn 2030 wedi'i osod ar gyfradd o 40%, gallai defnyddio'r hyblygrwydd hwn gyfrannu hyd at 32 pwynt canran tuag at y targed ZEV. Pe bai'r targed ZEV yn 70% a'r cap trosglwyddo CO₂ yn 2030 wedi'i osod ar 40%, byddai defnyddio'r hyblygrwydd hwn yn fwy cyfyngedig gan y gallai gyfrannu hyd at 28 pwynt canran tuag at y targed ZEV. Fel arall, pe byddem am gyfyngu ymhellach ar ddefnyddio'r hyblygrwydd, gellid gosod y cap trosglwyddo CO₂ ar 20%, a fyddai'n golygu y gallai'r hyblygrwydd hwn gyfrannu hyd at 16 pwynt canran tuag at y targed ZEV yn 2030.
184. Mae rhagor o fanylion am sut y gallai hyn weithio'n ddamcaniaethol, wedi'u halinio â'r trywyddau ceir a faniau amgen a gyflwynir yn Rhan 3A, wedi'u nodi yn 'Rhan 4: Effaith carbon yr opsiynau a ystyriwyd', lle modelwyd ystod o gapiau gwahanol fel rhan o opsiynau darluniadol.
185. Fel y'i rheoleiddir ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn VETS yn gosod trywydd hyd at 2030. Er bod llwybr dangosol ar gyfer ceir a faniau yn gyson â'r broses o ddileu'r defnydd yn 2035 wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2023 (gweler Tabl 1 yn Rhan 3A), nid yw'r targedau hyn wedi'u hymgorffori mewn rheoliadau eto. Mae'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y llwybr tuag at ymrwymiad llywodraeth y DU erbyn 2035 i roi'r gorau i werthu ceir a faniau petrol a diesel newydd yn raddol. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r dystiolaeth a dderbynnir, byddai Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ceisio gweithredu unrhyw newidiadau polisi sy'n deillio o hynny, gan gynnwys ymestyn y Mandad ZEV y tu hwnt i'w amserlen bresennol.

Cwestiwn 9: Beth yw eich barn ar ymestyn hyblygrwydd trosi CO₂ hyd at 2034? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 10: Beth yw eich barn ynghylch a ddylai'r hyblygrwydd aros wedi'i gapio? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 11: Beth yw eich barn ar ba gapiau (os o gwbl) ddylai fod yn berthnasol o 2029-2034? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 12: A oes gwelliannau eraill i'r hyblygrwydd trosi CO₂ y dylai Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eu hystyried? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Hyblygrwydd pellach

186. Hyd yn hyn, mae'r defnydd o'r hyblygrwydd benthyca a bancio o fewn Gorchymyn VETS wedi amrywio. Yn 2024, defnyddiwyd yr hyblygrwydd benthyca yn gynnil. Cefnogodd tua 1.2% o gydymffurfiaeth effeithiol y sector ceir â tharged ZEV a 0.2% ar gyfer y sector faniau.
187. Yn 2024, defnyddiwyd yr hyblygrwydd bancio yn gymedrol. Banciodd cyfranogwyr gyfwerth â 3.7% o gyfanswm y ceir a gofrestrwyd, a chyfwerth â 2.3% o gyfanswm y faniau a gofrestrwyd. Bydd lwfansau a gronnwyd yn 2024 yn parhau i fod ar gael tan 2027.
188. Yn ogystal â'r hyblygrwydd, gall cyfranogwyr fasnachu hefyd. Yn 2024, roedd gweithgynhyrchwyr yn masnachu'r hyn sy'n cyfateb i gydymffurfiaeth effeithiol o 2.1% yn y farchnad geir a chydymffurfiaeth effeithiol o 0.1% yn y farchnad faniau. Ni ddefnyddiwyd yr holl lwfansau a fasnachwyd ar gyfer cydymffurfiaeth 2024, a chafodd rhai eu bancio i'w defnyddio mewn blynyddoedd cynllun yn y dyfodol.
189. Mae'r hyblygrwydd trosglwyddo deugyfeiriadol, sy'n galluogi trosglwyddiadau rhwng cydymffurfiaeth ceir a faniau, ar gael am y tro cyntaf ym mlwyddyn y cynllun 2025.
190. Yn seiliedig ar ddata dros dro ar gyfer 2025, rydym yn disgwyl i'r farchnad ceir a faniau gydymffurfio â gofynion y Mandad ZEV trwy gyfuniad o werthiannau ZEV a defnyddio'r hyblygrwydd. Rydym yn rhagweld y bydd gweithgynhyrchwyr yn gwneud defnydd tebyg o'r hyblygrwydd yn y ffenestr fasnachu ar gyfer blwyddyn cynllun 2025.

Prif darged ZEV 2025		Cyfran ZEV gyfwerth rhagamcanedig 2025 (gan gynnwys hyblygrwydd)
Car	28%	30.5%
Fan	16%	16.9%

Tabl 12. Cydymffurfiaeth ragweledig â Mandad ZEV 2025 yn ôl sector, yn seiliedig ar ddata dros dro.

191. Mae hyblygrwydd yn offeryn allweddol ar gyfer cydymffurfio â Mandad ZEV, gan ddarparu ar gyfer portffolios cynnyrch amrywiol trwy gynnig llwybrau lluosog i gydymffurfio. Maent yn galluogi gweithgynhyrchwyr i alinio strategaethau

cydymffurfio â'u manau cychwyn datgarboneiddio, eu cynlluniau buddsoddi a'u dewisiadau rheoleiddio. Er enghraifft, efallai y bydd y rhai sydd â chynigion EV cadarn yn cydymffurfio'n ormodol yn gynnwys ac yn bancio neu'n gwerthu credydau, tra gall eraill ddibynnu ar fenthycia wrth iddynt ehangu. Yn hollbwysig, mae'r mecanweithiau hyn yn cadw cyfanrwydd y polisi trwy amodau ad-dalu, terfynau amser a chyfraddau cyfnewid CO₂-i-ZEV. Mae'r rhain yn sicrhau bod ZEV yn parhau i gael ei ddefnyddio ac yn amddiffyn arbedion carbon.

192. O ystyried pryder cynyddol y gallai gweithgynhyrchwyr wynebu 'ymyl y dibyn' o ran cydymffurfio yn 2030, pan fydd yr hyblygrwydd presennol ar fin dod i ben, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ceisio barn ynghylch a yw'r hyblygrwydd hwn yn dal i fod yn addas at y diben, neu a fyddai addasiadau neu estyniadau pellach yn cefnogi gweithgynhyrchwyr i gyflawni trywydd ZEV a chreu llwybr y gellir ei reoli hyd at 2035.

Cwestiwn 13: Beth yw eich barn chi ar effeithiolrwydd yr hyblygrwydd presennol, a sut y gellid dylunio'r hyblygrwydd benthyca, bancio a throsglwyddo deugyfeiriadol ar ôl 2029 i alluogi llwybrau cydymffurfio lluosog? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 14: A ddylid ystyried unrhyw hyblygrwydd pellach? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhai elfennau hyblygrwydd

193. O fewn y Gorchymyn VETS, mae rhai elfennau hyblygrwydd trosi a masnachu yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwysedd ychwanegol. Mae'r meini prawf cymhwysedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwr gael lwfansau gormodol yn y cynllun masnachu y mae'n dymuno trosi / masnachu ohono. Nid yw nifer y lwfansau gormodol wedi'i nodi.
194. Mae'r meini prawf yn gweithredu fel mesur diogelu eang i sicrhau nad yw cyfranogwyr nad ydynt yn cydymffurfio yn gallu trosi / masnachu eu hunain i ddiffyg pellach.
195. Mae'r meini prawf cymhwysedd ychwanegol hyn yn berthnasol i'r llwybrau masnachu trosi a dwyffordd canlynol:
- a. Trosi lwfansau CCTS yn gredydau CRTS (Erthygl 23)⁷⁷
 - b. Trosi lwfansau VCTS yn gredydau VRTS (Erthygl 55)⁷⁸
 - c. Trosi lwfansau VRTS yn gredydau VCTS (Erthygl 67)⁷⁹

⁷⁷ Gorchymyn VETS, Erthygl 23: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/23>

⁷⁸ Gorchymyn VETS, Erthygl 55: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/55>

⁷⁹ Gorchymyn VETS, Erthygl 67: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/67>

- d. Trosi lwfans CRTS yn gredydau CCTS (Erthygl 35)⁸⁰
 - e. Trosi deugyfeiriadol o lwfansau VRTS i gredydau CRTS (ar gyfer cyfranogwyr VRTS – Erthygl 23A)⁸¹
 - f. Trosi deugyfeiriadol lwfans CRTS i gredydau VRTS (ar gyfer cyfranogwyr CRTS – Erthygl 55A)⁸²
 - g. Masnachu lwfansau VRTS gyda chyfranogwyr CRTS (Erthygl 57A)⁸³
 - h. Masnachu lwfansau CRTS gyda chyfranogwyr VRTS (Erthygl 25A)⁸⁴
196. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cydnabod y gallai rhai cyfranogwyr ffafrio mwy o opsiynau i reoli eu cydymffurfiaeth. Gallai diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael mynediad at yr hyblygrwydd a restrir uchod gefnogi hyn.
197. Byddai hyn yn adlewyrchu'r dull mewn rhannau eraill o'r Gorchymyn VETS. Er enghraifft, o dan Erthygl 25⁸⁵ ac Erthygl 57⁸⁶ gall cyfranogwyr brynu neu werthu lwfansau neu gredydau CRTS neu VRTS heb ddangos eu sefyllfa cydymffurfiaeth neu eu bod mewn gwarged.
198. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn agored i safbwyntiau ynghylch a ellid diwygio neu symleiddio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr hyblygrwydd trosi a masnachu deugyfeiriadol a nodir uchod i gefnogi llwybrau cydymffurfio pellach.
- Cwestiwn 15: Beth yw eich barn ynghylch a ddylid diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhai elfennau hyblygrwydd trosi a masnachu deugyfeiriadol? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.**

3C. Darpariaethau VETS Eraill

Credydau

199. Gall credydau wobrwyo gweithgynhyrchwyr am fuddsoddi mewn technoleg ZEV arbenigol mewn rhannau anodd o'r farchnad ceir a faniau.
200. Yn 2024, roedd y rhan fwyaf o weithgynhyrchwyr yn cyflawni eu rhwymedigaethau trwy werthiannau ZEV a hyblygrwydd arall, gyda chredydau'n chwarae rhan gyfyngedig mewn cydymffurfiaeth. At ei gilydd, cynhyrchwyd ychydig dros 100 o gredydau yn y farchnad geir a dim ond dau gredyd a gynhyrchwyd yn

⁸⁰ Gorchymyn VETS, Erthygl 35: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/35>

⁸¹ Gorchymyn VETS, Erthygl 23A: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/23A>

⁸² Gorchymyn VETS, Erthygl 55A: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/55A>

⁸³ Gorchymyn VETS, Erthygl 57A: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/57A>

⁸⁴ Gorchymyn VETS, Erthygl 25A: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/25A>

⁸⁵ Gorchymyn VETS, Erthygl 25: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/25>

⁸⁶ Gorchymyn VETS, Erthygl 57: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/57>

y farchnad faniau. Yn seiliedig ar ddata dros dro, rhagwelir y bydd credydau'n cael eu defnyddio'n debyg yn 2025, a disgwylir i gredydau chwarae rhan gyfyngedig mewn cydymffurfiaeth.

Credydau cerbyd i'r grid

201. Ymrwymodd ymateb y llywodraeth ar y cyd i'r Ymgynghoriad Mandad ZEV ym mis Rhagfyr 2024 i ystyried ymestyn credydau i gerbydau â galluoedd gwefru deugyfeiriadol.⁸⁷
202. I gydnabod y manteision sy'n gysylltiedig â defnydd ynni clyfar a hyblyg, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y budd posibl o gredyd newydd ar gyfer ceir a faniau deugyfeiriadol sy'n gallu cysylltu cerbydau i'r grid (V2G) a cherbydau i'r cartref (V2H). Gallai hyn roi cymhellion i dechnoleg sy'n cyflawni gostyngiadau carbon y tu hwnt i'r sector trafnidiaeth ac annog arloesi. Nid yw Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn bwriadu gwobrwyio galluoedd cerbyd i lwyth (V2L).
203. Rydym yn ystyried fframwaith sy'n dyfarnu credyd i gerbydau sy'n bodloni cyfres o feini prawf technegol. Byddai'r meini prawf hyn yn dangos bod gallu V2G / V2H yn ystyrion ac yn swyddogaethol, y gellir rhoi tystiolaeth gadarn ar ei gyfer, a'i fod yn hygyrch i yrwyr. Mae hyn yn bwysig o ystyried natur newydd technoleg V2G / V2H a'r cyfyngiadau presennol o ran rhyngweithredu.
204. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ystyried y meini prawf technegol canlynol:

Meini Prawf	Rhesymeg	Gwiriad cydymffurfiaeth
Mae gallu deugyfeiriadol V2G/V2H wedi'i alluogi yn y model DU	Sicrhau fod y gallu wedi'i alluogi'n weithredol ar y pwynt gwerthu, a heb ei gloi gan danysgrifiad nac i'w actifadu yn y dyfodol	Arddangos drwy hunan-adroddiad neu o leiaf un cyfluniad gweithredol wedi'i gymeradwyo gan G99 ar gofrestr prawf math Cymdeithas y Rhwydwaith Ynni (ENA)
Presenoldeb gwrthdroydd deugyfeiriadol gweithredol ar y cerbyd sy'n ofynnol ar gyfer AC V2G	Gofyniad caledwedd sylfaenol allweddol ar gyfer AC V2G/V2H ar gerbydau	Cymeradwyaeth G99 ar gofrestr prawf math ENA
Gallu allforio pŵer lleiaf	Sicrhau bod allbwn V2G defnyddiadwy lleiaf yn gyraeddadwy ac osgoi hap-addasiadau	Dangos drwy hunan-adroddiad neu gymeradwyaeth G99 ar gofrestr prawf math ENA
Cadarnhad nad yw defnyddio V2G/V2H wedi'i eithrio yng ngwarant batri'r cerbyd trydan	Bydd gwarantau yn rhwystr allweddol i ddefnydd V2G os cânt eu heithrio'n benodol. Sicrhau	Dangos drwy hunan-adrodd a/neu wirio'r warant

⁸⁷ Canlyniad ymgynghoriad y llywodraeth, Ebrill 2025: <https://www.gov.uk/government/consultations/phasing-out-sales-of-new-petrol-and-diesel-cars-from-2030-and-supporting-the-zev-transition/outcome/phasing-out-sales-of-new-petrol-and-diesel-cars-from-2030-and-supporting-the-zev-transition-summary-of-responses-and-joint-government-response#part-2-vehicle-emissions-trading-schemes-updates>

	cysondeb â safonau gwarant ZEV cyfredol	
Mae o leiaf un gwefrydd trydan cydnaws â gallu V2G/V2H yn bodoli yn y DU	Mae angen gwefrwyr cydnaws i sicrhau nad yw gallu cerbydau V2G/V2H yn ddamcaniaethol yn unig	Arddangos drwy hunan-adrodd neu bwynt gwefru cymeradwy ar gofrestr prawf math ENA (dolen gaeedig AC V2G/V2H neu DC V2G/V2H)
Safon gyfathrebu ISO15118-20 ddiweddaraf wedi'i rhoi ar waith mewn cerbyd	Sicrhau gallu i ryngweithredu EV i EV gwefrydd V2G/V2H, sy'n allweddol i ddatgloi manteision V2G/V2H ar raddfa fawr	Arddangos trwy gymeradwyaeth math cerbyd
Mae cynigion, bwndeli neu dariffau V2G/V2H byw yn bodoli ar gyfer y cerbyd	Hyd yn oed os arddangosir cydnawsedd V2G/V2H rhwng ZEV a phwynt gwefru, efallai na fydd gyrrwyr yn gallu cael mynediad at y swyddogaeth nac elwa ohoni heb gytundebau masnachol ar waith rhwng gweithgynhyrchwyr cerbydau a darparwyr ynni neu hyblygrwydd, er enghraifft ar ffurf tariff, bwndel neu gynnig galluogi (er enghraifft Bwndel Pecyn Pŵer Octopus) ⁸⁸	Arddangos cynnig byw o'r dechrau i'r diwedd (cerbyd + gwefrydd + tariff) a'r perthnasoedd masnachol angenrheidiol trwy hunan-adrodd
Ymrwymiad OEM i gynnal gallu V2G am gyfnod gofynnol ar ôl gwerthu	Diogelu defnyddwyr i sicrhau gallu aml-flwyddyn	Wrddangos drwy hunan-adrodd
Rhaid i'r cerbyd fod wedi'i gymeradwyo â phrawf math G99 ar gyfer AC V2G	Sicrhau bod y cerbyd yn cydymffurfio â gofynion G99 ac wedi'i gymeradwyo i ollwng i'r grid	Gofyniad yn y dyfodol pan fydd cymeradwyaethau gwefrwyr cerbydau a cherbydau trydan yn cael eu rhannu - cymeradwyaeth G99 ar gofrestr prawf math Cymdeithas y Rhwydwaith Ynni (ENA)

Tabl 13. Cynigion meini prawf technegol ar gyfer credyd V2G/V2H.

205. O ystyried y bydd angen i unrhyw feini prawf technegol ar gyfer V2G/V2H esblygu dros amser, mae gan Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ddiddordeb mewn cael barn ar sut y gellid dylunio a gweithredu meini prawf o'r fath mewn ffordd sy'n gymesur, yn wiriadwy ac yn gallu gwrthsefyll hapchwarae anfwriadol. Rhaid i'r meini prawf hefyd fod yn ymarferol yn y tymor byr.
206. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw asesiadau gan weithgynhyrchwyr cerbydau ynghylch pa gerbydau/modelau sydd ar y farchnad, neu a fydd ar y farchnad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a allai fod yn gymwys ar gyfer credyd V2G/V2H.
207. Yn ogystal, croesewir barn ynghylch a ddylid adlewyrchu gwahaniaethau mewn dulliau cerrynt eiledol (AC) neu gerrynt uniongyrchol (DC) ar gyfer V2G/V2H yng nghynllun neu brisiad credyd V2G/V2H, ac os felly sut. Gall y systemau hyn effeithio ar ddyluniad a chost galluoedd V2G/V2H. Efallai y bydd gwahaniaethau hefyd yn addasrwydd V2G/V2H ar draws mathau o gerbydau, gyda rhai achosion defnydd, fel ar gyfer faniau, o bosibl yn fwy cydnaws â systemau DC.

⁸⁸ Octopus EV, <https://octopusev.com/power-pack-bundle>

Cwestiwn 16: Beth yw eich barn ar gyflwyno credyd V2G/V2H, gan gynnwys y dull arfaethedig o ymdrin â meini prawf cymhwysedd technegol, ac unrhyw feini prawf ychwanegol (os o gwbl) y dylai Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eu hystyried? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 17: Yn eich barn chi, sut ddylai ystyriaethau fel cost, ymarferoldeb, gwarantau ac aeddfedrwydd safonau ddylanwadu ar ddyluniad ac amseriad gofynion credyd V2G/V2H, gan gynnwys a ddylid cyflwyno meini prawf yn raddol dros amser? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 18: Beth yw eich barn chi ynghylch a ddylai credyd V2G/V2H fod yn wahanol rhwng cerbydau sy'n gallu defnyddio AC a DC? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Credydau eraill

208. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig hefyd yn agored i safbwyntiau ar gredydau ychwanegol a allai ysgogi cyflenwad ZEV mewn ffyrdd sy'n darparu gwerth cymdeithasol ehangach, er enghraifft drwy gefnogi segmentau penodol o'r farchnad neu wobrwyo technolegau a dulliau cynhyrchu arloesol.

209. Gallai hyn gynnwys credydau ar gyfer cerbydau ZEV bach (M1), bysiau mini M2 di-allyriadau (<4.25t), cadwyni cyflenwi cynaliadwy, cerbydau fflyd arbenigol di-allyriadau neu gerbydau ZEV a ddefnyddir mewn llogi preifat. Nid yw'r opsiynau yn hollgynhwysol.

Cwestiwn 19: A oes credydau ychwanegol y dylid eu hystyried o fewn VETS ar gyfer ceir a faniau? Esboniwch eich ateb.

Taliadau cydymffurfio

210. Rhaid i weithgynhyrchwyr nad ydynt yn cyrraedd eu targedau ar ôl iddynt ddefnyddio'r holl hyblygrwydd a llwybrau i gydymffurfio wneud taliad cydymffurfio. Mae'r taliadau cydymffurfio hyn yn werth £12,000 y car a £15,000 y fan, sy'n gymharol â'r taliadau cyfatebol yn yr UE.

211. Mae taliadau cydymffurfio yn rhan hanfodol o reoliad Mandad ZEV. Maent yn rhoi cymhellion i weithgynhyrchwyr werthu ZEVs oherwydd, yn gyffredinol, mae gwerthu ZEVs yn rhatach na thalu dirwyon. Mae gwerthu ZEVs hefyd yn rhyddhau lwfansau a allai, pan fyddant yn cael eu masnachu, fod yn fwy na chost cynhyrchu'r cerbyd. Gan ddefnyddio data o'r Mandad ZEV, rydym yn amcangyfrif bod cost gyfartalog masnachu lwfansau ZEV tua £4,000 fesul lwfans car ZE yn 2024, sy'n sylweddol rhatach na'r dirwyon.

212. Yn 2024, rhagorodd y diwydiant cyfan ar brif dargedau y Mandad ZEV trwy werthu cerbydau trydan a defnyddio hyblygrwydd mewnol. Nid yw gwybodaeth derfynol ynghylch blwyddyn cynllun Mandad ZEV 2025 ar gael eto, gyda'r ffenestr fasnachu gyfatebol i fod i ddechrau yn ddiweddarach eleni.
213. O ystyried eu pwysigrwydd yn ecosystem y Mandad ZEV, nid yw Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cynnig dileu taliadau cydymffurfio.
214. Fodd bynnag, rydym yn agored i safbwyntiau ynghylch a ellid addasu taliadau cydymffurfio ymhellach i gefnogi'r pontio i ZEV. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ymwybodol y gall taliadau cydymffurfio greu rhwymedigaethau ansicr i weithgynhyrchwyr y mae angen eu hystyried yn eu cynllunio ariannol.
- Cwestiwn 20: Beth yw eich barn, os o gwbl, ynghylch a ddylai taliadau cydymffurfio aros ar y lefelau presennol? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.**

Llinellau sylfaen CO₂ nad ydynt yn ZEV

215. Pennir targedau llinell sylfaen CO₂ nad ydynt yn ZEV ar gyfer gweithgynhyrchwyr yn unol ag Atodlen 1 o Orchymyn VETS.⁸⁹ Rhaid i weithgynhyrchwyr gadw eu hallyriadau CO₂ cyfartalog nad ydynt yn ZEV islaw eu targed sylfaenol er mwyn parhau i gydymffurfio.
216. Derbyniodd gweithgynhyrchwyr a gofrestrodd gerbydau nad ydynt yn ZEVs yn y DU cyn 2021 darged sylfaenol CO₂ yn seiliedig ar eu perfformiad allyriadau yn 2021.
217. Mae gweithgynhyrchwyr sy'n dod i mewn i farchnad y DU o 2022 ymlaen yn derbyn targed sylfaenol CO₂ yn seiliedig ar flwyddyn wahanol:
218. Derbyniodd gweithgynhyrchwyr a ymunodd yn 2022 neu 2023 darged sylfaenol sy'n cyfateb i'w hallyriadau cyfartalog yn y flwyddyn gyntaf y gwnaethon nhw gofrestru cerbydau nad ydynt yn ZEVs yn y DU.
219. Mae gweithgynhyrchwyr sy'n ymuno yn 2024 neu ar ôl hynny yn derbyn targed sylfaenol sy'n hafal i allyriadau cyfartalog y diwydiant nad ydynt yn ZEV yn y flwyddyn cyn eu cyfranogiad.
220. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ceisio barn ynghylch a ddylid diwygio sut mae targedau sylfaenol yn cael eu pennu ar gyfer gweithgynhyrchwyr sy'n dod i mewn i farchnad y DU yn neu ar ôl 2027.

⁸⁹ Gorchymyn VETS, Atodlen 1: <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2023/1394/schedule/1>

221. Er enghraifft, yn hytrach na derbyn targed sylfaenol sy'n hafal i allyriadau cyfartalog y diwydiant nad ydynt yn ZEV yn y flwyddyn cyn eu cyfranogiad, gellid gosod targedau llinell sylfaen ar ganran islaw hyn (er enghraifft 2%, 5%, 10% islaw ac ati). Gallai hyn dynhau'r llinell sylfaen i ystyried y twf diweddar mewn gwerthiannau PHEVs, fel y nodir yn adran PHEVs yr ymgynghoriad hwn, ac annog cwmnïau newydd i ganolbwyntio ar werthu ZEVs.

Cwestiwn 21: Beth yw eich barn ynghylch a ddylid diwygio'r ffordd y pennir llinellau sylfaen ar gyfer gweithgynhyrchwyr sy'n dod i mewn i farchnad y DU yn neu ar ôl 2027, a sut? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 22: Nodwch unrhyw addasiadau pellach (os o gwbl) i dargedau llinell sylfaen y credwch y gallai fod yn angenrheidiol. Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

3D. Datrysiadau polisi amgen

PHEVs

222. Fel y manylir yn Rhan 2, mae'r DU wedi gweld twf cryf mewn PHEVs sy'n peryglu erydu arbedion carbon disgwylledig a manteision ansawdd aer y Mandad ZEV. Felly mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ceisio barn ar sut i ymateb i'r mater sy'n dod i'r amlwg hwn ac annog gyrru a gwefru cerbydau trydan, gyda'r opsiynau canlynol dan ystyriaeth.

Opsiw 1: cymhwyso gwerthoedd CO₂ Ewro 7 o 2030 ymlaen

223. Dod â'r hyblygrwydd CO₂ amgen ar gyfer PHEV i ben o 2030, a chymhwyso gwerthoedd cyfatebol i Ewro 6e wedi'u diweddarau neu, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, gwerthoedd CO₂ Ewro 7 dros y cyfnod 2030–2034. O dan y dull hwn, ni fyddai PHEVs bellach yn elwa o werthoedd allyriadau is, seiliedig ar Ewro 6d etifeddol, a byddent yn cael eu hasesu gan ddefnyddio ffigurau CO₂ mwy cynrychioliadol a chyfoes. Byddai hyn yn lleihau'r fantais cydymffurfio sy'n gysylltiedig â PHEVs yn sylweddol ac yn rhoi cymhelliant pellach i weithgynhyrchwyr werthu ZEVs.

Opsiw 2: ymestyn hyblygrwydd CO₂ PHEV yn amodol ar yrru EV profedig

224. Ymestyn hyblygrwydd CO₂ amgen presennol ar gyfer PHEV y tu hwnt i'w ddyddiad gorffen presennol hyd at 2034, yn amodol ar yrru EV profedig yn y byd go iawn. O dan y dull hwn, byddai gweithgynhyrchwyr yn gallu parhau i wneud cais

am y gwerthoedd CO₂ is yn seiliedig ar Ewro 6d os gallant arddangos defnydd o gerbydau trydan trwy ddata byd go iawn cadarn. Byddai gweithgynhyrchwyr sy'n darparu data cynhwysfawr a gwiriadwy yn gymwys i gael gwerthoedd CO₂ diwygiedig, fel arall byddai gwerthoedd CO₂ uwch yn cael eu neilltuo i gerbydau yn ddiofyn. Byddai'r dull hwn yn annog gweithgynhyrchwyr i gefnogi a hyrwyddo gyrru cerbydau trydan a gwella'r aliniad rhwng canlyniadau rheoleiddio ac allyriadau go iawn.

Opsiwn 3: ymestyn hyblygrwydd CO₂ PHEV yn amodol ar ymddygiad gwefru profedig

225. Ymestyn hyblygrwydd CO₂ amgen presennol ar gyfer PHEV y tu hwnt i'w ddyddiad gorffen presennol hyd at 2034, yn amodol ar ymddygiad gwefru profedig yn y byd go iawn. O dan y dull hwn, byddai gweithgynhyrchwyr yn gallu parhau i wneud cais am y gwerthoedd CO₂ is yn seiliedig ar Ewro 6d os gallant ddarparu tystiolaeth gadarn bod eu cerbydau'n cael eu gwefru'n rheolaidd. Gallai'r dystiolaeth hon gynnwys, er enghraifft, data sampl o Fonitorau Defnydd Tanwydd ar y Cerbyd neu ffynonellau data eraill wedi'u gwirio sy'n dangos patrymau cynaliadwy o weithrediad trydanol. Yn ogystal, gellid ystyried gofynion meddalwedd a gynlluniwyd i annog neu ysgogi ymddygiad gwefru amlach. Lle na ddarperir tystiolaeth o'r fath, byddai gwerthoedd CO₂ uwch yn cael eu neilltuo i gerbydau yn ddiofyn. Byddai'r dull hwn yn annog gweithgynhyrchwyr i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad gwefru a gwella'r aliniad rhwng canlyniadau rheoleiddio ac allyriadau go iawn.
226. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ceisio barn ar effaith cael gwared ar yr hyblygrwydd CO₂ amgen ar gyfer PHEV cyn 2030 a chymhwyso gwerthoedd cyfatebol Ewro 6e wedi'u diweddaru neu, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, gwerthoedd CO₂ Ewro 7 o ddyddiad cynharach hyd at 2034. O dan y dull hwn, byddai PHEVs yn pontio o werthoedd allyriadau is, sy'n seiliedig ar Ewro 6d etifeddol cyn 2030, ac yn cael eu hasesu gan ddefnyddio ffigurau CO₂ mwy cynrychioliadol a chyfoes dros gyfnod hirach.
227. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraeth yn credu y byddai'r gwrthdroad hwn yn cael effaith sylweddol ar arbedion CO₂ yn y byd go iawn oherwydd oedi rhwng newidiadau i'r UF mewn cymeradwyo math a phan fydd cerbydau'n dod i mewn i'r farchnad. Ni ddisgwylir i gerbydau sydd wedi'u cymeradwyo o ran math gyda'r UF 6e-bis 2025 wedi'i ddiweddaru ddod i mewn i farchnad y DU yn sylweddol tan 2026. Mae'n annhebygol y bydd cerbydau sydd wedi'u cymeradwyo o dan y 6e-bis-FCM UF yn cael eu gwerthu mewn niferoedd sylweddol tan 2029.
228. O ystyried nad yw diddymu'r hyblygrwydd hwn cyn 2030 yn debygol o arwain at ostyngiadau allyriadau ystyrion, tra'n tanseilio ein hymrwymiad blaenorol, nid

ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn ond mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn drwy'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn 23: Sut gall Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig annog gyrru EV ymhlith PHEV a chefnogi ymddygiadau gwefru? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 24: Beth arall all Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ei wneud ynghylch ystyried PHEVs yn y Gorchymyn VETS?

Cwestiwn 25: Beth yw eich barn chi ar hyblygrwydd CO₂ PHEV amgen, a ddylai hyn barhau y tu hwnt i 2030 a gyda pha gafeatau? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 26: A ydych chi'n cytuno â'n barn y dylid cynnal trefniadau hyblygrwydd CO₂ PHEV amgen tan 2030? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Gwnaed yn Ewrop

229. Mae llywodraeth y DU wedi ymrwmo i'w hymrwymiaidau rhyngwladol o dan Sefydliad Masnach y Byd a chytundebau masnach dwyochrog perthnasol, ac mae'n gweithio gyda'r UE ar ei chynigion i sicrhau nad yw diwydiant y DU dan anfantais annheg.

230. Er mwyn helpu mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd barn ar lwybrau posibl ar gyfer ymateb i gynnig Deddf Cyflymu Diwydiannol yr UE.

Cwestiwn 27: Sut allai llywodraeth y DU ymateb i ddarpariaethau'r Ddeddf Cyflymu Diwydiannol sy'n ymwneud â cherbydau trydan? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Galw

231. Mae galw cryf am gerbydau ZEV yn hanfodol i ysgogi pobl i'w defnyddio a chynnal marchnad defnyddwyr lewyrchus. Mae'r Llywodraeth eisoes yn darparu ystod o fesurau i gefnogi'r defnydd o ZEV. Am fwy o fanylion am y rhain, gweler 'Cefnogaeth y llywodraeth i ZEVs' yn Rhan 1 o'r ddogfen hon.

Cwestiwn 28: Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd y mesurau presennol i gefnogi'r defnydd o EVs? Pa fesurau ychwanegol, os o gwbl, y dylid eu cyflwyno i gefnogi defnydd cyflymach o EVs? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Ansawdd Aer

232. Er bod y Mandad ZEV wedi'i anelu'n bennaf at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, disgwylir iddo hefyd ddarparu manteision sylweddol o ran ansawdd aer. Nid yw cerbydau di-allyriadau yn ôl y diffiniad yn cynhyrchu allyriadau egsôst niweidiol ac felly gallant helpu lleihau crynodiad llygryddion niweidiol fel ocsidau nitrogen (NO_x) a gronynnau mân (PM_{2.5}). Mae cerbydau trydan hefyd fel arfer yn dibynnu'n fawr ar frecio adfywiol, gan leihau allyriadau gronynnol (PM_{2.5}/PM₁₀) o draul brecio. I'r gwrthwyneb, mae risg y bydd EVs, sy'n tueddu i fod yn drymach, yn cynhyrchu mwy o allyriadau gronynnol o draul teiars a ffyrdd; ond disgwylir i effaith gyffredinol cerbydau pwerus o ran maint fod yn gadarnhaol ar ansawdd aer, gan yr amcangyfrifir y bydd dileu allyriadau pibellau gwagio a lleihau allyriadau traul brecio yn gorbwyso effaith cynnydd mewn traul teiars a ffyrdd.

Cwestiwn 29: Rhowch unrhyw dystiolaeth ar effeithiau ansawdd aer o ganlyniad i'r pontio i drafnidiaeth ffyrdd drydanol, gan gynnwys effeithiau ar iechyd, yr amgylchedd a chost.

3E. Gwelliannau Deddfwriaethol Eraill i'r Gorchymyn VETS

233. Er bod yr ymgynghoriad hwn yn bennaf yn gwahodd barn ynghylch a yw nodweddion allweddol y Gorchymyn VETS yn parhau i fod yn effeithiol, mae'n rhoi cyfle i gasglu adborth ar welliannau mwy arferol i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Gallai'r gwelliannau gweithredol targedig hyn gefnogi gweinyddiaeth ddyddiol y cynllun a lleihau beichiau gweinyddol i'r diwydiant a llywodraeth y DU sy'n gweinyddu'r Gorchymyn VETS ar ran Llywodraethau Datganoledig.

Gofynion ar gyfer cymwysiadau gwerthoedd CO₂ PHEV amgen

234. Mae llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ystyried gwelliannau i Atodlen 3A⁹⁰ i symleiddio ac egluro'r broses ymgeisio ar gyfer ceisiadau am werthoedd CO₂ PHEV amgen gan gynnal cywirdeb. Gall hyn gynnwys newidiadau i:

- a. Nodi gwerthoedd data'r adroddiad prawf a gymerir ar gyfer y cerbyd cyfatebol (fel rhan o Amod A o Atodlen 3A). Er y gellir deillio gwerthoedd data perthnasol yr adroddiad prawf ar gyfer y cerbyd cyfatebol drwy groesgyfeirio at ddarpariaethau deddfwriaethol eraill sy'n bodoli eisoes,

⁹⁰ Gorchymyn VETS, Atodlen 3A: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/schedule/3A>

gallai rhestru'r rhain yn y Gorchymyn VETS wella tryloywder a rhwyddineb dehongli.

- b. Dileu'r cyfeiriad at "CoCs cerbydau cyfatebol" (yn Amod A) gan, yn ymarferol, fod gan y dogfennau hyn werth tystiolaethol cyfyngedig ar gyfer asesu ceisiadau.
- c. Ychwanegu gofyniad penodol i weithgynhyrchwyr cerbydau gyflwyno "CoCs cerbydau sy'n wrthrych" fel rhan o Amod A er mwyn eglurder;
- d. Diwygio Atodlen 3A i ganiatáu mwy o ddisgresiwn i'r Gweinyddwr VETS wrth ofyn am Dystysgrifau Cydymffurfiaeth (CoCs). Gallai hyn olygu dileu'r gofyniad presennol yn is-baragraff (a) o dan bob amod a'i ddisodli â darpariaeth sy'n caniatáu i'r Gweinyddwr ofyn am gynhyrchu CoCs enghreifftiol, ochr yn ochr ag adroddiadau prawf perthnasol neu dystysgrifau cymeradwyo math, fel rhan o asesu ceisiadau. Yn ymarferol, gallai hyn olygu gofyn am un adroddiad prawf neu dystysgrif cymeradwyo math allyriadau fesul teulu rhyngosod, gan ofyn am CoCs ar sail fwy targedig (er enghraifft, trwy wiriadau ar hap yn erbyn VINs unigol). Byddai'r newid hwn wedi'i fwriadu i ddarparu dull mwy cymesur a hyblyg o ran gofynion tystiolaeth, gan gynnal sicrwydd priodol ar yr un pryd.
- e. Diwygio Atodlen 3A i adolygu'r dull o bennu allyriadau penodol amgen o CO₂ ar gyfer cerbydau trydan hybrid plygio i mewn er mwyn lleihau nifer y pwyntiau data a'r dogfennau sydd eu hangen. Byddai'r newid hwn wedi'i fwriadu i alluogi penderfyniad llai gweinyddol o'r allyriadau penodol amgen o CO₂ ar gyfer cerbydau cymwys.

Cwestiwn 30: Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i Atodlen 3A i wella effeithlonrwydd gweinyddiaeth wrth gynnal sicrwydd? Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn am lai o CoCs? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 31: Pa ddulliau eraill o bennu'r allyriadau penodol amgen o CO₂ ar gyfer cerbydau trydan hybrid plygio i mewn y gellid eu defnyddio? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 32: Pa newidiadau eraill i Atodlen 3A, os o gwbl, ydych chi'n credu y dylid eu hystyried? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Amserlenni gweithredol

235. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn barn ar fanteision posibl gwneud addasiadau i amserlenni gweithredol, megis amseriad y ffenestr fasnachu, ac a

allai symud y ffenestr hon leddfu pwysau dros gyfnod gwyliau mis Rhagfyr a gwella cyfranogiad. Y ffenestr fasnachu yw'r cyfnod lle mae'n rhaid i weithgynhyrchwyr adrodd ar eu penderfyniadau ynghylch masnachu, bancio, benthycu a throsiadau. Ar hyn o bryd mae ar agor o 1 Tachwedd tan 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

Cwestiwn 33: Beth yw eich barn chi, os o gwbl, ar amseriad presennol y ffenestr fasnachu? Pa newidiadau, os o gwbl, ydych chi'n meddwl allai wella hyn? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Ildio lwfansau a chredydau VRTS a CRTS

236. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r Gorchymyn VETS yn ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr ildio lwfansau / credydau VRTS a CRTS o dan Erthygl 27⁹¹ ac Erthygl 59⁹² i gyfrif am eu gweithgarwch. Uned fesur y gweithgarwch hwnnw yw cofrestru un car neu fan NZE. Mae trefn benodol ar gyfer ildio credydau a lwfansau:

- a. Credydau
- b. Lwfansau ar gyfer blwyddyn y cynllun sy'n cael ei hasesu, gan gynnwys lwfansau a fasnachwyd
- c. Lwfansau wedi'u benthycu (rhaid i'r gwneuthurwr hysbysu'r gweinyddwr os yw'n bwriadu benthycu lwfansau).
- d. Lwfansau wedi'u bancio.

237. Mae'r drefn ildio bresennol yn golygu bod angen i gyfranogwyr ddefnyddio eu lwfansau diweddaraf yn gyntaf, gan gynyddu'r risg y bydd lwfansau hyn sydd wedi'u bancio yn dod i ben. Felly, rydym yn ceisio barn ar orchymyn ildio lwfansau / credydau, ac a allai diwygio'r gorchymyn gefnogi cydymffurfiaeth yn well. Er enghraifft, pe bai lwfansau sydd wedi'u bancio yn cael eu hyrwyddo ymhellach i fyny'r drefn ildio, byddai gweithgynhyrchwyr mewn gwell sefyllfa i ddefnyddio'r lwfansau hyn cyn iddynt ddod i ben, gan wneud y mwyaf o'r manteision sy'n gysylltiedig â gor-gydymffurfio â'u targedau ZEV.

Cwestiwn 34: Beth yw eich barn chi ar y drefn bresennol ar gyfer ildio lwfansau / credydau CRTS a VRTS? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

⁹¹ Gorchymyn VETS, Erthygl 27: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/27>

⁹² Gorchymyn VETS, Erthygl 59: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/59>

Sut i ddelio â ZEVs sy'n methu gofyniad gwarant

238. O dan Erthygl 3,⁹³ mae cerbydau ZEV sy'n methu â bodloni'r gofyniad gwarant yn cael eu trin fel cerbydau nad ydynt yn ZEV. Mae hyn yn golygu bod y cerbydau hyn yn cael eu cipio o dan y cynlluniau CO₂ yn hytrach na'r cynlluniau ZEV. Mewn senarios cyfyngedig, gall hyn arwain at enillion lwfans CO₂ anghymesur. Felly, efallai y byddai'n fuddiol creu dosbarthiad/triniaeth bwrpasol ar gyfer cerbydau di-allyriadau o'r fath (sy'n methu â chyflawni'r gofyniad gwarant) neu gyflwyno cyfyngiad ar hyblygrwydd trosi CO₂ i ZEV ar gyfer cerbydau o'r fath.

Cwestiwn 35: Beth yw eich barn, os o gwbl, ar y driniaeth bresennol o gerbydau ZEV sy'n methu â bodloni gofynion gwarant?

Llinellau sylfaen cronfa

239. O dan y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer ymgeiswyr cronedig o dan Atodlen 1, cyfrifir targed sylfaenol CO₂ cronfa drwy gymryd llinell sylfaen allyriadau unigol pob aelod o'r gronfa a chyfrifo cyfartaledd pwysol gan ddefnyddio cofrestriadau pob aelod yn 2021 neu'r flwyddyn gyntaf y daethant yn gyfranogwr CCTS/VCTS, yn unol â pharagraffau 20 a 40 o Atodlen 1.⁹⁴ Mae'r fethodoleg yn golygu bod llinellau sylfaen y gronfa yn cael eu pwysoli yn seiliedig ar gofrestriadau hanesyddol yn hytrach na chofrestriadau yn y flwyddyn gynllun y ffurfiwyd y gronfa ar ei chyfer. Efallai y byddai'n well pwysoli llinellau sylfaen y gronfa yn seiliedig ar gofrestriadau yn y flwyddyn gynllun y ffurfiwyd y gronfa ar ei chyfer, a fyddai'n gwneud cydymffurfiaeth y gronfa (o ran lwfansau a gweithgarwch CCTS/VCTS) yn effeithiol yn swm cydymffurfiaeth aelodau unigol y gronfa ar gyfer y flwyddyn honno. Gallai ailbwysoli'r llinell sylfaen gan ddefnyddio cofrestriadau cyfoes alinio'r targed yn well â strwythur a gweithgarwch presennol y gronfa.

Cwestiwn 36: Beth yw eich barn, os o gwbl, ar y ffordd y mae targedau llinell sylfaen yn cael eu cyfrifo ar hyn o bryd ar gyfer ceisiadau cronedig? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 37: Beth yw eich barn, os o gwbl, ynghylch a fyddai'n well pwysoli llinellau sylfaen y gronfa yn seiliedig ar gofrestriadau yn y flwyddyn gynllun y ffurfiwyd y gronfa ar ei chyfer? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

⁹³ Gorchymyn VETS, Erthygl 3: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/3>

⁹⁴ Gorchymyn VETS, Atodlen 1: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/schedule/1>

Credydau Clybiau Ceir

240. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i weithgynhyrchwyr ennill credyd clwb ceir ar gyfer cerbydau ZE cymwys yn unol ag erthyglau 20,⁹⁵ 22,⁹⁶ 52,⁹⁷ a 54.⁹⁸ Yn 2024, dyfarnwyd ychydig iawn yn unig o gredydau clwb ceir (dim ond 11 credyd).⁹⁹ Mae'r Adran yn cydnabod bod y credyd clwb ceir yn cynnwys lefel gymharol uchel o weinyddiaeth o'i gymharu â'i ddefnydd a'i effaith hyd yn hyn, mae hyn yn cynnwys rhyngweithio â gweithredwyr clybiau ceir trydydd parti.
241. Felly, efallai y byddai'n ddefnyddiol adolygu effeithiolrwydd a dyluniad y credyd, gan gynnwys a ellid symud cyfrifoldebau gweinyddol i weithgynhyrchwyr neu a ellid symleiddio'r meini prawf cymhwysedd, er mwyn sicrhau bod y dull yn parhau i fod yn gymesur ac yn ymarferol.

Cwestiwn 38: Beth yw eich barn, os o gwbl, ar ddyluniad presennol y credyd clybiau ceir? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Diffiniadau ar gyfer cyfranogwyr cyfaint isel

242. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae Atodlen 4¹⁰⁰ yn nodi'r gofynion cymhwysedd i gael eich trin fel "cyfranogwr cyfaint isel" (h.y. wedi'i randdirymu o ofynion ZEV) ar gyfer y Mandad ZEV. Fodd bynnag, efallai y byddai geiriad paragraff 1(c) yn elwa o eglurhad, yn enwedig termau fel "defnydd unigryw", "ffatri weithgynhyrchu neu gydodod" a "chanolfan ddylunio", er mwyn cefnogi gweinyddiaeth ac asesiad mwy cyson o'r ceisiadau hyn.
243. At ei gilydd, gallai'r gwelliannau hyn sicrhau bod fframwaith VETS yn parhau i fod yn ymarferol, yn gymesur ac yn cyd-fynd â datblygiadau rheoleiddio ehangach, gan barhau i gyflawni amcanion polisi.

Cwestiwn 39: Beth yw eich barn, os o gwbl, ynghylch a ddylid newid y geiriad o amgylch cyfranogwyr cyfaint isel i gefnogi gweinyddiaeth ac asesiad mwy cyson? Eglurwch eich ateb gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cwestiwn 40: Pa newidiadau arferol neu dechnegol ychwanegol, os o gwbl, y dylid eu hystyried i gefnogi gweithrediad parhaus y cynlluniau? Esboniwch eich ateb.

⁹⁵ Gorchymyn VETS, Erthygl 20: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/20>

⁹⁶ Gorchymyn VETS, Erthygl 22: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/22>

⁹⁷ Gorchymyn VETS, Erthygl 52: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/52>

⁹⁸ Gorchymyn VETS, Erthygl 54: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/article/54>

⁹⁹ Adroddiad cydymffurfiaeth a data terfynol ar gyfer blwyddyn y cynllun 2024, Mawrth 2026: <https://www.gov.uk/government/publications/vehicle-emissions-trading-schemes-vets-final-compliance-information-2024>

¹⁰⁰ Gorchymyn VETS, Atodlen 4: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1394/schedule/4>

Rhan 4: Effaith carbon yr opsiynau a ystyriwyd

Crynodeb

244. Er mwyn asesu effeithiau carbon y trywyddau amgen a drafodwyd yn nhrywyddau derbyn ZEV adran 3A. , mae'r Adran Drafnidiaeth wedi modelu pedwar senario darluniadol sy'n cyd-fynd â'r dewisiadau amgen hynny. Mae'r rhain yn cael eu cymharu â'r ffurf ddeddfwriaethol gyfredol o VETS, sy'n cynrychioli'r llinell sylfaen.
245. Mae'r pedwar opsiwn darluniadol i gyd yn cynnwys parhad amrywiol hyblygrwydd y tu hwnt i 2029. Nid yw'r rhain wedi cael eu hasesu ar wahân, gan y byddai hyn yn cyflwyno nifer sylweddol o senarios i'w dadansoddi o ystyried y ffyrdd lluosog y gellid addasu pob hyblygrwydd.
246. Mae'r opsiynau'n ddarluniadol o ystyried nifer y ffyrdd y gellir addasu'r Mandad, gyda'r canlyniadau'n ddibynnol ar yr adborth a dderbynnir drwy'r ymgynghoriad hwn.

Dewisiadau darluniadol

247. Mae'r hyblygrwydd a aseswyd yn y pedwar opsiwn amgen ar gyfer newid wedi'u nodi yn Nhabl 14. Fel y nodir, mae'r opsiynau hyn yn ddarluniadol a'u bwriad yw cymharu sut y gellid addasu'r hyblygrwydd a nodir yn y ddeddfwriaeth bresennol, o fewn cyfyngiadau modelu.
248. Gweler Atodiad A am wybodaeth fanylach am y modelu a gynhaliwyd i gefnogi'r ymgynghoriad hwn.
249. Ar lefel uchel, mae hyblygrwydd allweddol sydd i fod i ddod i ben yn 2029 yn cael ei ymestyn ym mhob un o'r pedwar opsiwn amgen. Mae Tabl 14 yn nodi'r rhagdybiaethau a wnaed wrth ymestyn yr hyblygrwydd hwn, er enghraifft a

addaswyd elfennau fel capiau, terfynau amser, llog neu gyfraddau cyfnewid (nad addaswyd i raddau helaeth).

250. Mae'r prif addasiad yn ymwneud â sut mae'r trosiad CO₂ i ZEV yn cael ei ymestyn. Yn yr opsiynau lle mae trywyddau wedi'u lleihau (opsiynau 1, 2 a 3), mae'r hyblygrwydd a fodelwyd ar ôl 2030 yn is o'i gymharu ag opsiwn 4, lle mae'r prif drywyddau yn aros yr un fath. Mae nifer o ffyrdd o leihau hyblygrwydd a allai gynnwys: gostwng y cap trosi CO₂, newid yr addasiad ffactor defnydd ar gyfer PHEVs, neu newid hyd y cyfnod y gellir bancio neu fenthycu credydau. Ar gyfer y senarios darluniadol hyn, modelwyd hyn drwy ostwng y capiau trosi o 2030 o'i gymharu â'r capiau o dan Opsiwn 4. Bwriad hyn yw diogelu arbedion carbon drwy gyfyngu ar faint y gall cyfranogwyr drosi arbedion CO₂ yn ZEVs.

Hyblygrwydd Mandad ZEV	Llinell sylfaen allyriadau (Mandad cyfredol)	Opsiwn gwahanol 1 (prif darged ceir 70%, faniau 60% yn 2030 gyda hyblygrwydd estynedig)	Opsiwn gwahanol 2 (prif darged ceir 60%, faniau 50% yn 2030 gyda hyblygrwydd estynedig)	Opsiwn gwahanol 3 (prif darged ceir 50%, faniau 40% yn 2030 gyda hyblygrwydd estynedig)	Opsiwn gwahanol 4 (prif darged ceir 80%, faniau 70% yn 2030 gyda hyblygrwydd estynedig)
Trosglwyddiad CO ₂ i ZEV (CRTS i CCTS a VRTS i VCTS)	Yn dod i ben yn 2029	Yn parhau o 2029 cyn dod i ben yn 2034, gan ddilyn y trywydd rhwng 2025 a 2029. Mae'r capiau wedi'u modelu yr un fath â'r polisi deddfwriaethol cyfredol hyd at 2030.	Yr un fath ag opsiwn 1	Yr un fath ag opsiwn 1	Yn parhau hyd at 2034 ond mae'r capiau'n fwy hael nag yn opsiynau 1 i 3)
Trosglwyddiad ZEV i CO ₂ (CCTS i CRTS a VCTS i VRTS)	Yn parhau am byth	Yn parhau hyd at 2034. Dim newid o'i gymharu â'r llinell sylfaen (dim terfyn ar drosglwyddo)	Yr un fath ag opsiwn 1	Yr un fath ag opsiwn 1	Yn parhau hyd at 2034. Dim newid o'i gymharu â'r llinell sylfaen (dim terfyn ar drosglwyddo)
Trosglwyddiad ZEV Car i Fan (CRTS i VRTS a VRTS i CRTS)	Yn dod i ben yn 2029	Yn parhau hyd at 2034. Dim newid i'r gyfradd gyfnewid.	Yr un fath ag opsiwn 1	Yr un fath ag opsiwn 1	Yn parhau hyd at 2034. Dim newid i'r gyfradd gyfnewid.
Bancio credydau ZEV	Yn dod i ben yn 2029	Wedi'i ganiatáu hyd at 2034, dim newid i'r terfynau amser.	Yr un fath ag opsiwn 1	Yr un fath ag opsiwn 1	Wedi'i ganiatáu hyd at 2034, dim newid i'r terfynau amser.
Benthycu credydau ZEV	Yn dod i ben yn 2029	Wedi'i ganiatáu hyd at 2034, dim newid i'r gyfradd llog.	Yr un fath ag opsiwn 1	Yr un fath ag opsiwn 1	Wedi'i ganiatáu hyd at 2034, dim newid i'r gyfradd llog.
Hyblygrwydd Ffactor Defnydd ar gyfer PHEVs	Yn dod i ben yn 2029	Wedi'i ganiatáu hyd at 2034, dim newid i'r cynllun.	Yr un fath ag opsiwn 1	Yr un fath ag opsiwn 1	Wedi'i ganiatáu hyd at 2034, dim newid i'r cynllun.

Tabl 14. Hyblygrwydd ar draws opsiynau wedi'u modelu.

251. Nodir effaith ansoddol ymestyn yr hyblygrwydd hwn ar allyriadau carbon yn y tabl isod.

Hyblygrwydd Mandad ZEV	Effaith ar werthiannau ZEV	Effaith ar allyriadau
Trosglwyddiad ZEV i CO ₂ (CCTS i CRTS a VCTS i VRTS)	Mae hyn yn arwain at gynydd neu ddim newid – mae'n caniatáu i weithgynhyrchwyr drosglwyddo credydau ZEV tuag at gyrraedd targedau CO ₂ nad ydynt yn ZEV.	Mae hyn yn arwain at ostyngiad neu ddim newid – mae'r cyfraddau cyfnewid yn golygu bod angen mwy o werthiannau ZEV nag allyriadau nad ydynt yn ZEV wedi eu gwrthbwyso.
Trosglwyddiad Car i Fan	Mae'r effaith hon yn dibynnu ar gyfeiriad y trosglwyddo o geir i faniau neu o faniau i geir – gallai hyn leihau gwerthiant cyffredinol ZEV os yw'r trosglwyddiadau'n bennaf o geir i	Disgwylir i hyn beidio â chael unrhyw effaith – mae cyfraddau cyfnewid ceir i faniau wedi'u cynllunio i wrthbwyso effaith carbon unrhyw

(CRTS i VRTS a VRTS i CRTS)	faniau (oherwydd y gyfradd drosglwyddo) a chynyddu gwerthiant ZEV os yw'r trosglwyddiadau'n bennaf o faniau i geir. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd y mecanwaith cydymffurfio hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.	werthiannau a gollwyd yn y naill farchnad neu'r llall.
Bancio credydau ZEV	Nid yw hyn yn arwain at unrhyw effaith ar y cyfan – mae'r hyblygrwydd yn caniatáu cyrraedd targed ZEV dros gyfnod aml-flwyddyn drwy fancio credydau ZEV.	Mae'r effaith yn fach iawn – bydd yn trosglwyddo arbedion carbon rhwng blynyddoedd, gan y gall arwain at gynydd mewn gwerthiannau ZEV yn y blynyddoedd cynnar a wrthbwysir gan ostyngiad mewn gwerthiannau ZEV mewn blynyddoedd diweddarach. Disgwylir y bydd effaith fach iawn ar allyriadau carbon cyffredinol gan fod disgwyl i gredydau wedi eu bancio gael eu defnyddio'n llawn.
Benthyca credydau ZEV	Mae hyn yn arwain at gynydd bach mewn gwerthiannau ZEV at ei gilydd – pan gaiff ei ddefnyddio, mae hyn yn lleihau gwerthiannau ZEV mewn blynyddoedd cynharach ond yn cynyddu gwerthiannau ZEV mewn blynyddoedd diweddarach. At ei gilydd, mae'n arwain at gyfanswm gwerthiannau ZEV ychydig yn uwch oherwydd cyfraddau llog a gymhwysir i gredydau benthyg.	Mae hyn yn arwain at ostyngiad bach – disgwylir iddo arwain at werthiannau ZEV ychydig yn uwch ac felly allyriadau is yn gyfan gwbl.
Hyblygrwydd Ffactor Defnydd ar gyfer PHEVs	Mae hyn yn arwain at ostyngiad – mae'r gwerth CO ₂ PHEV is yn galluogi mwy o ddefnydd o hyblygrwydd trosglwyddo CO ₂ i ZEV dros werthiannau ZEV, a disgwylir i hyn leihau gwerthiannau ZEV.	Mae hyn yn arwain at gynydd - nid yw'r bwlch allyriadau yn y byd go iawn wedi'i gau ar gyfer PHEVs o dan yr hyblygrwydd hwn. Mae hyn yn arwain at ostyngiadau mawr mewn allyriadau o PHEVs yn y cynllun, na fyddai'n cael eu gwireddu yn y byd go iawn. Gallai hyn ostwng gwerthiannau ZEVs o'i gymharu â chydabod y gwerthoedd CO ₂ WLTP wedi'u diweddarau ar gyfer PHEVs.

Tabl 15. Effaith hyblygrwydd.


Effeithiau carbon

252. Modelwyd yr opsiynau amgen darluniadol yng nghynllun modelu allyriadau trafnidiaeth ffyrdd sefydledig yr Adran Drafnidiaeth, fel y disgrifir yn Atodiad A: Dull o gydymffurfio â'r Mandad ZEV a modelu carbon.
253. Amcangyfrifir effeithiau carbon yr opsiynau amgen o'i gymharu â'r allyriadau diweddaraf a fodelwyd o dan y ddeddfwriaeth gyfredol (gweler Tabl 14 am dybiaethau modelu). Mae'r adran ar arbedion carbon yn Rhan 1 o'r ddogfen hon yn nodi'r arbedion carbon o'r Mandad ZEV presennol ar draws cyllidebau carbon gan gynnwys CB6. Yn yr un modd ag y mae'r opsiynau amgen yn ddarluniadol, mae'r arbedion carbon a fodelwyd yn erbyn pob dewis arall yn ddarluniadol o ystyried y rhyngweithiadau cymhleth rhwng yr hyblygrwydd a'r prif dargedau ZEV, y ffyrdd lluosog y gellir addasu'r rhain, a'r cymhellion y gallent eu cyflwyno.
254. Mae opsiwn amgen 1 yn lleihau arbedion carbon o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Ar gyfer ceir, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad cyfartalog o 2.4 MtCO_{2e} y flwyddyn yn CB6 ac 1.8 MtCO_{2e} y flwyddyn yng Nghyllideb Carbon 7 (CB7). Ar gyfer faniau, mae'r effaith yn llai, gyda gostyngiadau cyfartalog o 0.7 MtCO_{2e} y flwyddyn yn CB6 a 0.5 MtCO_{2e} y

flwyddyn yn CB7. Yn CB6, mae hyn yn cyfateb i golled o 2% o'r arbedion ledled yr economi a ddisgwyllir yn y Gyllideb Carbon a'r Cynllun Cyflawni Twf (CBGDP).

255. Mae opsiwn amgen 2 yn lleihau arbedion carbon ymhellach o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Ar gyfer ceir, mae arbedion yn cael eu lleihau 4.2 MtCO₂e y flwyddyn yn CB6 a 3.1 MtCO₂e y flwyddyn yn CB7. Mae effeithiau'r faniau yn cynyddu o'i gymharu ag Opsiwn 2, gyda gostyngiad o 1.4 MtCO₂e y flwyddyn yn CB6 a gostyngiad o 0.9 MtCO₂e y flwyddyn yn CB7. Yn CB6, mae hyn yn cyfateb i golled o 4% o'r arbedion ledled yr economi a ddisgwyllir yn y CBGDP.
256. Mae opsiwn amgen 3 yn arwain at y gostyngiad mwyaf mewn arbedion carbon ar gyfer ceir o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Ar gyfer ceir, mae arbedion yn cael eu lleihau 6.4 MtCO₂e y flwyddyn yn CB6 a 4.7 MtCO₂e y flwyddyn yn CB7. Fel gyda'r opsiynau eraill, mae'r effaith ar faniau yn parhau i fod yn llai, sef gostyngiad o 2.0 MtCO₂e y flwyddyn yn CB6 a gostyngiad o 1.2 MtCO₂e y flwyddyn yn CB7. Yn CB6, mae hyn yn cyfateb i golled o 6% o'r arbedion ledled yr economi a ddisgwyllir yn y CBGDP.
257. Mae opsiwn amgen 4 yn arwain at yr arbedion carbon isaf o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Ar gyfer ceir, mae arbedion yn cael eu lleihau 0.3 MtCO₂e y flwyddyn yn CB6 a 0.2 MtCO₂e y flwyddyn yn CB7. Mae effeithiau'r faniau yn ostyngiad o 0.1 MtCO₂ y flwyddyn yn CB6 a 0.1 MtCO₂ y flwyddyn yn CB7. Yn CB6, mae hyn yn cyfateb i golled o 0.3% o'r arbedion ledled yr economi a ddisgwyllir yn GBGDP.¹⁰¹

¹⁰¹ Cyllideb carbon a chynllun cyflawni twf, <https://www.gov.uk/government/publications/carbon-budget-and-growth-delivery-plan>. Sylwch nad yw'r arbedion o geir a faniau yn cyfateb i'r rhai a gyflwynir yn Ffigur 22 oherwydd talgrynnu.



Ffigur 22. Effaith yr opsiynau darluniadol amgen ar arbedion carbon a gollwyd. o dan y 4 opsiwn darluniadol, a gynrychiolir fel colledion cyfartalog blynyddol yng Nghyllideb Carbon 6 (MtCO₂e). Cyflwynir arbedion coll fel gwerthoedd positif ac maent wedi'u talgrynnu i 1 lle degol.

English	Welsh
Car	Car
Van	Fan
Forecast loss in savings against current baseline, average annual savings (MtCO ₂ e)	Colled a ragwelir mewn arbedion yn erbyn y llinell sylfaen gyfredol, arbedion blynyddol cyfartalog (MtCO ₂ e)
Total 3.2	Cyfanswm 3.2
Option 1	Opsiwn 1
Total 5.6	Cyfanswm 5.6
Option 2	Opsiwn 2
Total 8.4	Cyfanswm 8.4
Option 3	Opsiwn 3
Total 0.5	Cyfanswm 0.5
Option 4	Opsiwn 4
Alternative Options for Change	Dewisiadau Amgen ar gyfer Newid

258. Ar draws yr holl opsiynau amgen, mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli effeithiau carbon cyfartalog blynyddol dros bob cyfnod cyllideb carbon. Mae'r tabl isod yn darparu effeithiau carbon blynyddol.

		2027	2028	2029	2030	2031	2032	2033	2034	2035	2036	2037	2038	2039	2040	2041	2042	2043	2044	2045	2046	2047	2048	2049	2050
Opsiwn 1	Car	0.1	0.5	0.7	1.4	2.0	2.4	2.5	2.6	2.5	2.3	2.2	2.0	1.9	1.8	1.6	1.5	1.3	1.2	1.0	0.8	0.6	0.5	0.3	0.2
	Fan	0.0	0.1	0.2	0.5	0.7	0.8	0.8	0.8	0.7	0.7	0.6	0.6	0.5	0.5	0.4	0.4	0.3	0.3	0.3	0.2	0.2	0.1	0.1	0.1
